# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 552 · Ebrill 2024 · 70c**

# ‘Tafarn lleol nid tai haf’




Mae ysbryd cymunedol yn fyw ac yn iach yn ardal Pentir.

Gydag ansicrwydd yn parhau am ddyfodol adeilad tafarn y Faenol, mae trigolion lleol wedi dod ynghyd i geisio sicrhau defnydd fydd o fudd i’r gymuned.

Mae sôn ers peth amser am gynlluniau posib i ehangu defnydd yr adeilad yn dai gwyliau, ond mae’n glir o gyfarfod diweddar a gynhaliwyd ym Mhentir, fod yna awydd i weld tafarn yn ail-agor yn y pentref.

Bu’r digwyddiad yn gyfle i amlygu buddion fyddai meddiannaeth leol yn ei ddod i’r ardal, gyda baner yn nodi ‘Tafarn lleol nid tai haf’ yn cael ei chario gan y pentrefwyr.

Roedd nifer yn siarad i amlygu pwysigrwydd parhad y dafarn a’r effaith gadarnhaol y byddai meddiannaeth gymunedol yn gallu ei gynnig i ardal Pentir, fel sydd wedi ei weld mewn cymunedau eraill ar hyd a lled Cymru.

Mae deiseb wedi ei sefydlu ar wefan change.org i ‘Arbed Tafarn y Faenol Pentir’, gyda dros fil wedi arwyddo yn barod.

Ceir mwy o’r hanes yn newyddion Pentir ar dudalen 19.

**Yn y rhifyn yma**

Rhedeg dros ryddid



19

7



Cap dros Gymru

**DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2024**

## ‘Gŵr â Chymru yn ei Galon’

**H. R. JONES**

Trefnydd Cyntaf Plaid Genedlaethol Cymru
Gan Glyn Tomos

**NOS LUN, 10 MEHEFIN AM 7.30**

yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, Bethesda
Mynediad am ddim

Trefnwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd gyda chydweithrediad Partneriaeth Ogwen

# Llais Ogwan

## Rhif 552
## Ebrill 2024


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Carwyn Meredydd.**

Y golygydd ym mis **Mai** fydd **Lowri Roberts**, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, Bangor, LL57 4NY.
01248 600490.
E-bost : l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 27 Ebrill** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 16 Mai,** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Ebrill**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (123) | Dilys Jones, Cefn y Bryn, Bethesda. |
| £20.00 | (1) | Angharad Hughes, Ffordd Pant, Bethesda. |
| £10.00 | (57) | Janet Davies, Ffordd Abercaseg, Bethesda. |
| £5.00 | (119) | Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Llanllechid. |


**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com


# Dyddiadur y Dyffryn

**Ebrill**

20 Dathlu Penblwydd Ysgol Rhiwlas yn 150 oed. 1.00 – 3.00.
20 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.
22 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
23 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
24 Clwb Hanes Rachub a Llanllechid. Eifion Hughes. Clwb Criced a Bowlio am 7.00.
26 Emynau Coll y Werin gyda Lleuwen Steffan. Capel Nant y Benglog, Capel Curig 7.00.
27 Bore Coffi Clwb Gorffwysfan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
27 Emynau Coll y Werin gyda Lleuwen Steffan. Capel Shiloh Newydd, Tregarth am 7.30.
29 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
30 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Mai**

02 Etholiad Comisynydd Heddlu. 7yb – 10yh.
06 Gwyl Hinsawdd. Canolfan Tregarth. 11.00 – 16.00.
11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
11 Bore Coffi Y Gymdeithas. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
11 Leela James. Neuadd Ogwen am 7.30.
13 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
13 Merched y Wawr Tregarth. Gyda Gwyn Vaughan Jones, Festri Shiloh Newydd am 7.30.
14 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
16 Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
17 Skerryvore. Neuadd Ogwen am 7.30.
18 Bore Coffi Cymorth Cristnogol. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.
24 Gwyl Melangell. Eglwys Crist Glanogwen am 7.00.
26 Ffair Wanwyn.Yn Eglwys Crist Glanogwen. 2.00 – 5.00yp.
28 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Mehefin**

01 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Caeau Rygbi Bethesda.
03 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
03 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
10 Darlith Goffa Dafydd Orwig. Llyfrgell Gymunedol Bethesda am 7.30.


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

# Gwaith Morgan yn serennu yn Storiel



Morgan Griffith gyda'i waith yn cael ei arddangos yn Storiel

Mae gwaith celf gan yr artist Morgan Griffith, Gerlan wedi ei ddewis ar gyfer Gwobr Celf Agored Storiel 2024.

Cafodd gwaith Morgan ei ddethol o blith degau o weithiau celf gan artistiaid o bell ac agos. Mae'r gwaith 'Disgyniad i'r Trobwll' yn rhan o arddangosfa Celf Agored yn Storiel sydd i'w weld ym Mangor tan 8 Mehefin 2024. Mae Celf Agored yn arddangosfa flynyddol sy'n agored i artistiaid a myfyrwyr 16 oed a hŷn sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Eleni

Mae'n bosib bydd y gwaith celf newydd yma y dechreuodd Morgan ei greu fis Medi diwethaf yn ymddangos fel rhywfaint o ddechrau o'r newydd i rai sy'n gyfarwydd gyda'i waith a'i broses greadigol. Ond mae'n teimlo fod y gwaith yn mynd ag o nôl i'w wreiddiau fel artist sy'n paentio, yn ogystal â'r elfen gludwaith neu 'collage'.

Mae Morgan yn hynod falch fod y gwaith wedi ei gydnabod fel rhan o arddangosfa Celf Agored Storiel eleni. Dywed fod ei waith diweddaraf yn cynrychioli ac yn adlewyrchiad o egni newydd a chyffrous.

Yn yr arddangosfa eleni, mae yna 86 o weithiau gan 67 artist. Eleni, y Beirniad Gwadd oedd Jwls Williams a fu'n dethol ynghyd â Jeremy Yates.

Llongyfarchiadau mawr i Morgan ar ei lwyddiant a chofiwch fynd draw i weld ei waith fel rhan o'r arddangosfa yn Storiel.

Os ydych yn mynd draw i Storiel, cewch bleidleisio dros eich ffefryn chi all wedyn fod yn gymwys am wobr Dewis y Bobl, rhodd gan Gyfeillion Storiel a roddir i'r gwaith a gaiff y mwyafrif o bleidleisiau. Ewch ati i ddewis eich ffefryn gan bleidleisio unwaith i'r gwaith hwnnw a'i roi yn y blwch postio arbennig cyn dydd Sadwrn, 18 Mai.



# Perchennog newydd Barbwr Ogwen

Mae yna gyfnod newydd wedi cychwyn yn siop barbwr Ogwen ar y Stryd Fawr ym Methesda wrth i Natasha Morris gymryd yr awenau.

Wedi 13 mlynedd yn y siop, mae Alison Owen wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi a bydd yn chwith hebddi. Fe roddodd Alison flynyddoedd o wasanaeth i drin gwalltiau dynion a phlant y cylch, a rhoi trefniadau pwrpasol i gadw pawb yn saff yn ystod y cyfnod Covid.

Ers dechrau Ebrill, mae Natasha Morris wedi cychwyn yn siop Barbwr Ogwen. Wedi hyfforddi mewn trin gwallt ar ôl ysgol, mae Natasha wedi bod yn gweithio mewn swyddi gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf.

"Roedd cymryd y siop drosodd yn gyfle perffaith i mi ddod nôl at drin gwallt a gwneud yn siŵr fod Barbwr Ogwen yn parhau," meddai Natasha.

Pob lwc Natasha!



Natasha Morris

### Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £2.30 | Alun Jones, Carneddi. |
| £12.30 | Di-enw, Bryn Caseg. |
| £2.30 | Gavin, Rhos y Coed. |
| £2.30 | Andre, Rhos y Coed. |
| £2.30 | Carys/Martin, Rhos y Coed. |
| £40.00 | Er cof am Jim Amos oddi wrth Mrs. Amos, Glan Ogwen. |
| £7.80 | Mân Roddion dienw - Abercaseg a'r cylch. |
| £10.00 | Beryl Orwig, Braichmelyn. |

**Diolch yn fawr**

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**

Cafwyd sgwrs arbennig o ddifyr yng nghyfarfod Mis Chwefror o'r Clwb Hanes, pan ddaeth Cadi Iolen draw i'r Clwb Criced i sôn am hanes Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, a'r cysylltiad sydd rhyngddi â Dyffryn Ogwen. Agorwyd yr amgueddfa ym 1972, ychydig flynyddoedd wedi i Chwarel Dinorwig gau ei drysau'n frawychus o sydyn. Yn ffodus, llwyddwyd i achub llawer iawn o'r creiriau o'r chwarel honno, a'u defnyddio fel sail i'r amgueddfa newydd. Mae'r amgueddfa wedi tyfu erbyn hyn, ac yn fwrlwm o weithgareddau amrywiol, o ffilmiau a gwaith celf gwych i weithdai ar gyfer plant, actorion 'mewn cymeriad', arddangosfeydd byw o chwarelwyr yn hollti a naddu yn ogystal â 13,000 o wrthrychau! Esboniodd Cadi sut y cyflwyna hanes Streic y Penrhyn i'r miloedd o ymwelwyr a ddaw drwy ddrysau'r amgueddfa. Mae 'Tŷ Bethesda' yn un o dai stryd 'Bron Haul' wrth gwrs, ac mae'r cerdyn yn y ffenest sy'n datgan nad oes 'bradwr yn y tŷ hwn' yn fan cychwyn gwych i gyflwyno'r hanes. Mae'r cês ar y gwely, sydd wedi ei bacio'n barod, er mwyn i ŵr y tŷ gychwyn am byllau glo De Cymru, yn rhoi gogwydd arall i ni ar yr hanes, ac mae'r gragen enfawr ar y bwrdd yn gyfle i sôn am y merched fu'n gwawdio'r 'Bradwyr' drwy ei defnyddio I 'hwtio'n' aflafar! Soniodd hefyd am adeiladau mawr crand ar draws y byd sydd wedi eu toi gan lechi Bethesda, a soniodd am grefftwaith artistig y chwarelwyr, fel y llefydd tân addurnedig, a cherfiadau llechi a fu'n fuddugol mewn eisteddfodau cenedlaethol. Gwelwyd enghreifftiau gwych o'r rhain ar y sgrin fawr gan Cadi. Mae cymaint i'w ddysgu yn yr Amgueddfa; ewch yno am dro - mae'r mynediad am ddim! Diolch yn fawr, Cadi, am y cyflwyniad gwych!

## Capel Carmel

Rydan ni'n anfon ein dymuniadau a'n cofion gorau at aelodau sydd ddim yn dda ar hyn o bryd. Mae Mrs Valerie Thomas, Tan y Garth, yn Ysbyty Eryri ac mae hi'n gwella ac yn cryfhau o dipyn i beth. Bu Mrs Glenys Jones, Adwy'r Nant, yn Ysbyty Gwynedd am ychydig ond mae hi yn ei chartref yn ei hôl erbyn hyn ac mae hi'n gwella.

*Ysgol Sul Carmel*

Roedd Sul Dewi Sant ar Fawrth y 3ydd. Mi gawsom ni wasanaeth a phregeth dan ofal y Parchg Nerys Griffiths gyda phlant yr Ysgol Sul yn rhoi eitemau cerddorol o ganu caneuon ac emynau a chloi'r gwasanaeth gyda pharti recorders yn canu alaw werin a'r plant lleiaf yn taro tambwrinau yn frwdfrydig iawn! Ardderchog, blant.

*Chwiorydd*

*Te Bach*

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Te Bach y mis yma. Mi gawsom ni gwpanaid a lluniaeth ysgafn a chyfle i sgwrsio. Daeth Llinos Roberts i ymweld â ni ar ôl iddi fod yn cerdded o gwmpas Llyn Idwal i godi arian at wlad Colombia (ymgyrch Cymorth Cristnogol). Rydan ninnau yng Ngharmel wedi bod yn codi arian at 'Ffynhonnau Byw' ers misoedd lawer. Diolch i Llinos am roi sgwrs fer i egluro gweithgarwch Cymorth Cristnogol yn y maes hwnnw. Rhoddwyd cyfraniad o £100 gennym ni i Llinos i noddi ei hymdrech er mwyn rhai o bobl dlotaf Colombia. Diolch i'r merched i gyd am helpu mewn gwahanol ffyrdd i wneud y Te Bach yn llwyddiannus.

*Gwasanaethau*

(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
**Ebrill 21**: Parchg. Dewi T. Morris
(am 2.00yp.)
**Ebrill 28**: Oedfa.
**Mai 5**: Parchg. Mererid Mair.
**Mai 12**: Sul Cymorth Cristnogol (Oedfa).
**Mai 19**: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener am 6.30yh.
CROESO CYNNES I BAWB





Yn bresennol yn y sgwrs roedd Sarah Burns o dalaith Pennsylvania gyda'i ffrind Kayleigh. Roedd William Holland yn hen hen daid i Sarah. Gwelir y ddwy efo Hywel yn y llun

**'Teulu Holland Williams'**

Ar nos Fercher 25 Mawrth, rhoddwyd sgwrs ddifyr gan Hywel Thomas o Abergwyngregyn yng Nghlwb Criced a Bowlio, Bethesda am hanes teulu Holland Williams, yn wreiddiol o Grymlyn, Llanllechid. Yn y sgwrs trafododd Hywel sut y bu i Streic Fawr Chwarel y Penrhyn chwalu ei deulu.

Un o ddeuddeg plentyn William a Grace Williams, Crymlyn oedd Holland Williams (1839-1888). Priododd â Margaret Roberts, Llandygai a chawsant wyth o blant.

Roedd pump o feibion Holland Williams yn gweithio yn y chwarel yn ystod cyfnod dechrau'r streic, sef William Holland Williams, Holland Williams, Hugh Owen Williams, Griffith Holland Williams a Richard Holland Williams.

Yn dilyn y trafferthion a barodd i'r streic neu'r cload allan ddigwydd penderfynodd yr Arglwydd Penrhyn a'i gynrychiolwyr gyhuddo'r brodyr a 21 o chwarelwyr eraill o gyflawni amryw o droseddau. Bu raid iddyn nhw ymddangos o flaen y llys ym Mangor i ateb y cyhuddiadau a wnaed yn eu herbyn. Ar ddiwedd yr achos penderfynwyd cosbi dau o'r brodyr sef William Holland a Holland Williams, gyda'r tri arall yn cael eu dyfarnu'n ddieuog.

Yn dilyn hyn, doedd dim gobaith iddyn nhw weithio yn y chwarel eto a phenderfynodd y brodyr symud i ffwrdd o'r ardal. William Holland a Holland Williams yn symud i'r Unol Daleithiau gyda Griffith Holland yn mynd i Aberffraw a Hugh Owen a Richard Holland yn symud i dde Cymru.

Croesawyd un o ddisgynyddion y teulu o America, yn ogystal ag aelodau eraill o'r teulu o Pant, Bethesda i'r cyfarfod yn y Clwb Criced.

**Diolch i Emyr Roberts am y crynodeb.**

**Cyngor Cymuned Llanllechid**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Iau, Mawrth14eg.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Kevin Williams.

Roedd y Cynghorwyr yn falch o weld Y Cynghorydd Alun Thomas yn nol yn dilyn ei ddamwain.

Croesawyd Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod a chafwyd diweddariad ar nifer o brosiectau sydd gan y Parc.

Adroddwyd fod Giat Mynydd Rachub wedi'i chynhyrchu a'r twll wedi'i wneud. Caiff ei gosod o fewn tua 3 mis a'i haddasu yn ei lle.

Bydd Clirio eithin yn digwydd dros Aeaf 2024-25. Bydd y gwaith yn cyd-fynd efo'r hel mynydd.


Trac Moel Wynion. Does dim amserlen bendant ar gyfer y gwaith ond tua gwanwyn/haf 2024.

Mae'r Cyngor bellach yn y broses o brynu peiriant i'w defnyddio i dorri cae pêl-droed Talybont. Maent eisoes wedi prynu cwt i gadw'r peiriant.

Rydym yn chwilio am unrhyw wirfoddolwyr a allai helpu o bryd i'w gilydd gyda thorri'r gwair. Cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org os gwelwch yn dda.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau 11eg o Ebrill.

Cofiwch am lyfryn diweddara'r Clwb Hanes sef 'Ardal Rachub - Tair Taith Fer'. Mae ar gael yn siop LONDIS Bethesda am £5 y copi, ac mae'n gwerthu fel slecs!




Llyfr Ardal Rachub

WALIO FFRANCON
Cysylltwch am Waith
Trwsio/Codi Waliau
Clirio Gerddi ac Ysbwriel
07766 157552
07464 085759

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID

**Nos Fercher, Ebrill 24ain 2024**

am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced a Bowlio

Bydd sgwrs gan

*Eifion Hughes*

**'Arferion Trin Merlod Mynydd Llanllechid'**

CROESO CYNNES!

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS
01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

## Calendr Llais Ogwen 2025

Lluniau ar gyfer Calendr 2025 i mewn cyn **23 Mehefin 2024**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- *nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a cynnwys eich cyfeiriad a'ch enw*

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2025@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Ysbyty**

Mae Mrs Carol Jones, Heulfan, Glasinfryn, yn glaf yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ers rai wythnosau. Anfonwn ein cofion cynhesaf atat Carol a phob dymuniad da am adferiad buan.

**Cartref Newydd**

Mae Mrs Eleri Jones, Bwthyn y Waen wedi symud i Borthaethwy i fyw. Bydd chwith garw ar ei hôl gan iddi fod yn byw yn yr ardal gyda'i diweddar ŵr Allan Jones am 27 o flynyddoedd.

Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd a llawenydd i chwi Eleri yn eich cartref newydd yn y Borth.

**Y Bingo Bach**

Cafwyd noson hwyliog iawn yn y Bingo Bach ar 22 Mawrth! Gwnaed elw o £275 tuag at Tŷ Gobaith. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson yn enwedig ADRA sy'n adeiladu tai ym Mro Infryn am eu rhodd caredig o wyau Pasg ac i Gylch Glasinfryn am eu rhodd hwythau o £32 a godwyd mewn raffl at yr achos ganddynt. Bydd y Bingo nesaf ar nos Wener, 26 Ebrill am 7yh, yr elw tuag at Gyfeillion Cerebral Palsy ym Mangor.

**Cylch Glasinfryn**

Cyfarfu aelodau'r Cylch yn y Ganolfan ar 13 Mawrth am amser cinio i ddathlu Gŵyl Dewi. Mwynhaodd bawb bowlenad o Lopsgows blasus ac yna dewis o nifer o bwdinau hyfryd i ddilyn yn ogystal â chaws a bisgedi, gwledd yn wir!! Diolchodd Glenys i bawb oedd wedi darparu'r bwyd ar gyfer yr achlysur. Rhoddwyd y raffl gan Mair a Margaret gyda Barbara Morris a Jean yn ennill. Cytunwyd rhoi arian raffl y mis yma at y Bingo oedd yn casglu at Tŷ Gobaith. Sgwrs gan Sarah Callon ar "Prosiect Gweilch y Pysgod Llyn Brenig" fu ar 10 Ebrill, ac yna ar 8 Mai daw Helen Broughton atom i roi hanes a sgwrsio am y "Cynllun Gerddi Agored". Mae pob cyfarfod yn dechrau am 2yp ac y mae croeso cynnes iawn i chwi ymuno â ni yn y Ganolfan.

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

**BARBWR OGWEN**
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

**Mark Davies**
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

**Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen** Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

**MODURON PANDY Cyf.**
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

**SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.**
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

**Ar y radio**

Difyr iawn oedd gwrando ar Dilys Parry, Bryn Tirion, yn rhannu ei hatgofion am ei dyddiau ysgol yn Rhiwlas ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru'n ddiweddar. Ymwelodd Aled â'r ysgol i gael hanes y dathlu sydd ar y gweill ac yn ogystal â Dilys bu Cynrig Hughes yn rhannu atgofion Myra Jones o'i dyddiau hi yn yr ysgol gynradd gydag Aled.

**Pen-blwydd arbennig Ysgol Rhiwlas - diwrnod agored**

Eleni mae Ysgol Rhiwlas yn dathlu carreg filltir go arbennig, sef pen-blwydd yn 150 oed ac mae'r dathliadau'n cyrraedd eu hanterth gyda'r diwrnod agored arbennig sydd wedi ei drefnu.

Cynhelir y diwrnod ar **ddydd Sadwrn 20fed Ebrill** rhwng **11am a 3pm**. Dyma gyfle ichi gael crwydro'r ysgol, hel atgofion dros baned a theisen, a phori drwy hen ffotograffau. Croeso cynnes i bawb – wynebau hen a newydd. Mi fydd yna hen sgwrsio a rhannu profiadau!

**Sgwrs i ddathlu pen-blwydd Ysgol Rhiwlas, 25/04/2024**

Nos Iau 25ain Ebrill am 7 o'r gloch yn Neuadd Bentref Rhiwlas bydd Cynrig Hughes yn cyflwyno hanes addysg yn yr ardal, a detholiad o Lyfrau Log Ysgol Rhiwlas 1874 – 1934.

Mae'r sgwrs yn rhan o ddathliadau Ysgol Rhiwlas yn 150 mlwydd oed ac yn sicr o fod yn un ddifyr. Dewch yn llu!

**Merched y Wawr**

'Llenyddiaeth i'n diddanu' oedd testun sgwrs dwy o'r aelodau, Carys ac Annes, yng nghyfarfod mis Mawrth. Roedd y ddwy wedi dewis dwy gyfrol yr oedden nhw wedi eu mwynhau'n ddiweddar i'w rhannu efo'r aelodau. 'Capten' gan Meinir Pierce Jones a 'Cymru Gudd' gan Dylan Arnold oedd dewisiadau Carys a'r ddwy gyfrol yn dwyn atgofion yn ôl iddi o hanes teulu a chyfnod plentyndod. Cyfrol o gerddi gogleisiol, 'Anwyddoldeb' gan Elinor Reynolds ac 'Ymbapuroli', casgliad o ysgrifau gan Angharad Price, oedd dewis Annes. Cafwyd trafodaeth ddifyr wedyn am Tan y Marchlyn, Deiniolen ('Cymru Gudd') a'r Lôn Glai ger Bethel ('Ymbapuroli') a mwy nag un o'r aelodau â chysylltiadau â'r ddau le. Paratowyd y te gan Kate a Catherine ac enillydd y raffl oedd Mari. Llongyfarchwyd Linda ar ei llwyddiant yn dod yn ail yn genedlaethol yng nghystadleuaeth yr Adran Grefft yn y Ffair Aeaf yn ddiweddar.
Mari sy'n gyfrifol am ein cyfarfod brynhawn Mawrth, Mai 14. 'Prynhawn Dirgel' yw'r testun. 'Sgwn i beth sydd o'n blaenau? Trowch i mewn atom i'r Neuadd am 1.30 p.m. i gael gwybod!

**Rhaglen lawn**

Mae Cyfeillion Rhiwlas wedi bod yn brysur iawn yn trefnu rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer gweddill y flwyddyn. Dyma sydd ar y gweill ganddyn nhw dros yr wythnosau nesaf 'ma:

**Noson Cwis**, nos Sadwrn, **Ebrill 27** rhwng 6.30 ac 8.

**Bingo**, nos Sadwrn, **Mai 25** rhwng 6.15 a 8.30

Mae'r holl ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn y Neuadd a byddwn yn cynnwys y manylion yn y 'Llais' o fis i fis. Mae'r Cyfeillion yn hynod o ddiwyd ac yn haeddu pob cefnogaeth. Dewch yn llu!

**Taith gerdded**

Bydd Menter Fachwen yn trefnu taith gerdded yn cychwyn o'r Neuadd Bentref am 10 o'r gloch y bore ar ddydd Mawrth, Ebrill 23 fel rhan o Gynllun Cerdded a Darganfod y Fenter. Taith o ryw ddwy filltir a hanner fydd hi o'r pentref i gyfeiriad safle Plas Pentir gynt.

### Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas

**Gwasanaethau'r Sul**

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

**Ebrill 21** - Parch Idris Thomas;
**Ebrill 28** - Parch Dewi Morris;
**Mai 12 (Sul Cymorth Cristnogol)** - Parch John Gwilym Jones.

Croeso cynnes i bawb.



### Cap dros Gymru!

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Dylan Alford, Caeau Gleision, am ennill ei gap cyntaf dros dîm rygbi Cymru dan 18 oed. Mae Dylan yn fyfyriwr yn academi rygbi Coleg Llandrillo yn astudio Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, ac mae'n chware rygbi i RGC (Rygbi Gogledd Cymru). Mae Dylan hefyd wedi cofrestru gyda Chlwb Rygbi Bethesda. Yr Alban oedd gwrthwynebwyr Cymru, a chafodd Cymru fuddugoliaeth o 43 – 10 yn Ystrad Mynach.
Mae pawb yn falch iawn o dy lwyddiant di, Dylan. Anfonwn ein dymuniadau gorau iti ar gyfer y dyfodol.

1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

# YSGOLION ABERCASEG A PHENYBRYN

Nawr lanciau, rhoddwn glod, y mae'r gwanwyn wedi dod....ydi wir, mae'r gwanwyn yn sicr wedi dyfod yn Ysgol Pen-y-bryn ac Ysgol Abercaseg, dewch ddarllen 'chydig o hanes y ddwy ysgol ym mis Mawrth...

**YSGOL PEN-Y-BRYN**

### Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Cyflwynodd dosbarth Tryfan wasanaeth am Dewi Sant a dathlu ein Cymreictod ar Fawrth y cyntaf, yn ogystal cawsom gyngerdd gwych o'r eitemau oedd y disgyblion am gystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Diolch i rieni aelodau'r côr a rhai o'r llywodraethwyr am ymuno gyda ni i ddathlu a mwynhau paned a bara brith.

### Cyfnod 3C

Mae pawb wedi mwynhau dysgu am y 3C - Cymru, Cymraeg a'n Cymuned. Cawsom bnawn hwyl bendigedig 'Cymry yn Cyfri' ble roedd pob dosbarth wedi cynllunio gemau rhifedd yn ymwneud a Chymru er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a datblygu sgiliau rhif yr un pryd. Roedd bwrlwm mawr yn y neuadd ac ar yr iard a'r plant wrth eu boddau yn dathlu Dydd Gwyl Dewi mewn steil.

### Cyfnod Eco

Mae'r disgyblion wedi cael llawer o brofiadau yn ystod y Cyfnod Eco.

### Dŵr Cymru

Treuliodd pob dosbarth sesiwn gyda Catrin o Dŵr Cymru yn gwneud tasgau ymarferol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn allwn wneud i arbed dŵr a dysgu sut i gael y gwerth gorau am arian. Rhannodd Catrin lawer o ffeithiau diddorol megis bod 1 fflysh toiled yn 9 litr o ddŵr!

### Sgiliau Beicio'n Ddiogel

Mae pob disgybl o Flwyddyn 3 wedi derbyn hyfforddiant pwysig er mwyn dysgu beicio'n ddiogel gyda Carwyn a Jac o Feiciau Antur Waunfawr. Llwyddodd pawb i gael tystysgrif ar ôl dysgu sut i edrych ar ôl eu beiciau gan gofio A- aer yn y teiars, B am y brêcs ac C am y chaen a datblygu eu sgiliau ar sut i gadw'n ddiogel wrth reidio beic.

### Diogelwch y Ffordd

Daeth Manon o Gyngor Gwynedd i'r ysgol i drafod diogelwch y ffordd a chymerodd pawb ran mewn cwis er mwyn dangos yr hyn oedden nhw wedi ei ddysgu.

### Cerdded neu Feicio Milltir y Dydd yn ystod mis Mawrth

Mae pob disgybl wedi ymgymryd â'r sialens a chael ei noddi i gerdded neu feicio milltir y dydd yn ystod mis Mawrth. Cawsom gyfle fel Ysgol gyfan i fynd am dro gyda'n gilydd un bore gan werthfawrogi lle mor braf yw ein hardal leol.

### Casglu Sbwriel yn y Gymuned

Mae pob dosbarth wedi bod allan i wahanol ardaloedd yn y gymuned i gasglu sbwriel a dysgu mai cyfrifoldeb y trigolion yw gofalu ac ymfalchïo yn harddwch a thaclusrwydd eu cymuned.

### Partneriaeth Ogwen

Diolch i Menna a Kyle am ddod a'r beic a cherbyd trydan i'r ysgol er mwyn trafod sut y gallwn leihau ein hol troed carbon wrth deithio.

### Diwrnod y Llyfr

Cawsom ddiwrnod i'r brenin ar Ddiwrnod y Llyfr gyda'r disgyblion wedi gwisgo fel cymeriad a dod a'u hoff lyfr i'r ysgol. Mwynhaodd pob dosbarth sesiwn rhithiol wedi ei drefnu gan Darllen Co a chawsom gyfle i newid dosbarthiadau er mwyn i'r disgyblion gael darllen straeon a gofyn cwestiynau i'w gilydd. Cytunodd pawb bod darllen yn dod a llawer o bleser a hwyl.





### Eisteddfod Yr Urdd

Llongyfarchiadau i Mali Non am dderbyn yr ail wobr am lefaru a chanu ar gyfer Bl3 a 4 yn Eisteddfod Cylch yr Urdd gan fynd ymlaen i gystadlu ar lwyfan mawr Pontio yn yr Eisteddfod Rhanbarth Eryri. Cafodd 3 grŵp o ddisgyblion hefyd y cyfle i gystadlu ar y llwyfan yn y gystadleuaeth Perfformiad Theatrig o Sgript, braf oedd gweld pawb yn mwynhau'r profiad gan berfformio mor hyderus a brwdfrydig. Llongyfarchiadau hefyd i gôr yr Ysgol am dderbyn y drydedd wobr, rydym yn hynod falch o'r plant i gyd.

### Twrnament Rygbi a Phêl-rwyd

Aeth tîm rygbi a thîm pêl-rwyd cymysg o'r ysgol i gystadlaethau'r Urdd, mwynhaodd pawb y profiad gan gyd-chwarae ac ymddwyn yn arbennig.



**RSPB Conwy**
Mwynhaodd pob disgybl ymweliad a RSPB Conwy. Cafwyd cyfle i fynd ar daith natur gan ddefnyddio ysbienddrych i arsylwi ar wahanol adar yn eu cynefinoedd a dysgu ffeithiau amdanynt. Hefyd bu'r plant yn chwilio a chasglu gwahanol drychfilod a'u dosbarthu. Diolch i'r staff yno am rannu eu harbenigedd a rhoi cyfle i'r plant werthfawrogi byd natur.

**Ymweld ag Eglwys Glan Ogwen**
Diolch i'r Parchedig Sara Roberts am groesawu holl ddisgyblion yr ysgol i'r eglwys i gael Stori'r Pasg a rhannu hanes diddorol yr eglwys. Cafwyd cyfle i holi cwestiynau a chael golwg fanwl ar ffenestri lliw hardd yr eglwys.



**YSGOL ABERCASEG**

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**
Roedd yn hyfryd gwahodd rhieni a chyfeillion i Neuadd yr ysgol ar gyfer gwasanaeth arbennig gan blant bach Abercaseg er mwyn dathlu bywyd ein nawddsant ac ein Cymreictod. Diolch hefyd i Anti Marian am baratoi lluniaeth ar ein cyfer.

**Diwrnod y Llyfr**
Roedd Dydd Iau y 7fed o Fawrth yn ddiwrnod cyffrous iawn yn yr ysgol i blant Ysgol Abercaseg. Gwisgodd ein disgyblion fel eu hoff gymeriad gan ddod a'u hoff stori i'r ysgol i ddathlu achlysur. Yn ogystal â hyn, aeth plant blwyddyn 2 ati i feddwl am wahanol ffyrdd o drefnu eu holl lyfrau... teitlau, dyddiad cyhoeddi, hyd yn oed nifer y tudalennau! Braf oedd gweld yr holl blant yn trafod a chymharu eu hoff straeon yn yr ysgol.

**Dathlu diwrnod trwynau coch**
Aeth plant yr ysgol i ymdrech arbennig ar ddiwrnod Trwynau Coch i greu gwalltiau gwallgof a gwirion. Diolch yn fawr iawn i bawb am gyfrannu a chefnogi elusen mor bwysig.

**Pared Pasg**
Syniad criw Ysgol Eco Abercaseg oedd i ofyn i blant yr ysgol i baratoi hetiau Pasg o bethau sydd yn gallu cael ei ail-gylchu yn y tŷ. Cawsom ddiwrnod gwych yn arddangos yr hetiau arbennig mewn pared. Hyfryd iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn gyda theuluoedd a ffrindiau'r ysgol. Diolch yn fawr iawn am gefnogaeth pawb gyda'r gwaith paratoi! Diolch hefyd i'r beirniaid a llywodraethwyr yr ysgol sef, y Cyng. Einir Williams, Linda Brown a Marian Arman am gyflawni gorchwyl dyrys iawn o wobrwyo'r hetiau gorau!



**Gweithgareddau Ysgol Eco**
Cafodd plant Abercaseg gyfle hefyd i fynd ar daith natur i ganolfan RSPB yng Nghonwy gan ddysgu sut i ddefnyddio ysbienddrych i arsylwi ar wahanol adar yn eu cynefinoedd a dysgu ffeithiau amdanynt. Hefyd bu'r plant yn chwilio a chasglu gwahanol drychfilod a'u dosbarthu. Diolch i'r staff yno am rannu eu harbenigedd a rhoi cyfle i'r plant werthfawrogi byd natur.

**Chwynnu, Palu a Phlannu!**
Mae dwylo bach prysur...a gwyrdd Abercaseg wedi dechrau mynd ati yng nghwmni Alisha bob pnawn Mercher yn paratoi'r tir ar gyfer y gwanwyn a'r haf. Pawb wrth eu bodd yn chwynnu, plannu a phalu!



# YSGOL RHIWLAS



Aled Hughes yn holi rhai o'r disgyblion

### Pen-blwydd arbennig

Yn ystod yr wythnos yn cychwyn 26ain Chwefror bu'r disgyblion yn brysur yn dathlu pen-blwydd Ysgol Rhiwlas yn 150 mlwydd oed. Aethpwyd ati i lenwi capsiwl amser i nodi sut le ydi Ysgol Rhiwlas yn 2024, a bydd yn cael ei gladdu yn fuan! Cafwyd ymweliad arbennig gan Mr Phormula, ac mae'r plant wedi creu cân newydd sydd yn dathlu'r achlysur arbennig.

Daeth Aled Hughes i'r ysgol i recordio eitem ar gyfer ei raglen ar Radio Cymru. Diolch arbennig i Dilys Parry a Cynrig Hughes am ymuno yn y cyfweliad. Diolch hefyd i Myra Jones am rannu ei hatgofion gyda Cynrig. Roedd yn eitem fyrlymus yn cynnwys atgofion cyn-ddisgyblion, hanes sefydlu'r ysgol, a'r plant yn trafod y gweithgareddau amrywiol oedd ar y gweill. Diolch Aled!

Coronwyd y cwbl ar y prynhawn dydd Gwener gyda pharti i ddathlu! Bu llawer o ddawnsio a chwerthin. Diolch arbennig i Sharon Griffith am y deisen ben-blwydd blasus.

### Ymweliad ag archfarchnad Tesco

Yn ddiweddar bu disgyblion Cyfnod Allweddol 1 ar daith arbennig i archfarchnad Tesco ym Mangor. Yn ystod yr ymweliad bu i'r plant ddysgu o ble y daw eu bwyd drwy grwydro ymysg y cynnyrch ffrwythau a llysiau, y becws, cownteri ac oeryddion, yn ogystal â blasu bwyd newydd cyffrous. Diolch i staff Tesco am y croeso cynnes.

### Sylwebwyr pêl-droed

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 gyfle i ddysgu sut mae sylwebu ar gemau pêl-droed wrth i'r sylwebydd Bryn Tomos ymweld â'r ysgol. Wyddoch chi fod heriau gwahanol i sylwebu ar gyfer radio a theledu - mae angen llawer mwy o ddisgrifiadau manwl o'r gêm wrth sylwebu ar gyfer y radio! Roedd pawb yn llawn brwdfrydedd ac wedi mwynhau'r sesiwn. Diolch yn fawr iawn i Bryn Tomos o raglen 'Sgorio' am fore difyr, a dwi'n sicr bod sylwebwyr y dyfodol ymysg disgyblion Ysgol Rhiwlas!

### Fferm Foel, Ynys Môn

Roedd disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn llawn cynnwrf wrth iddynt ymweld â Fferm Foel ar Ynys Môn yn ddiweddar. Roedd pawb wrth eu boddau yn cwrdd â'r holl anifeiliaid – y defaid, geifr, cwningod, gwartheg, ieir, a'r moch. Diolch i'r staff am eu croeso.

### Pasg

Diolch yn fawr iawn i aelodau Capel y Ffynnon, Bangor, am ymweld â'r ysgol er mwyn cynnal sesiwn arbennig am y Pasg.

### Bingo Pasg

'Eyes down' oedd hi ar bawb nos Fawrth, 19eg Mawrth wrth i'r ysgol gynnal noson Bingo Pasg. Cafwyd llawer o hwyl, chwerthin, a chanolbwyntio wrth i bawb groesi bysedd am 'line' neu 'house'! Roedd cystadleuaeth arbennig hefyd, sef dyfalu enw'r Bwni Basg, gyda'r enillydd yn ennill tegan meddal anferth. Edrych ymlaen am y noson Bingo nesaf!

### Hanes cyn-ddisgybl Ysgol Rhiwlas

*Hyfryd oedd derbyn yr ysgrif fer ganlynol gan Sarah Kelly o Fangor ychydig ddyddiau cyn i'r 'Llais' fynd i'r wasg. Mae'n sôn am ei chwaer Sophie a ddechreuodd ar ei gyrfa ysgol yn Rhiwlas bron i gan mlynedd yn ôl, yn 1925:*

'Un tro': stori am un eneth fach o Ysgol Rhiwlas

Dechreuodd fy chwaer, Sophia Mary Williams, ei gyrfa yn Ysgol Rhiwlas yn 1925. Cerddai yno hefo'i brawd, David Morris, oedd ychydig yn hŷn na hi, o fferm Llecharion (Ynys Cheuryn ar lafar) ar draws llwybrau Tyddyn Badin, Tros y Waen, a Chae Llel, neu weithiau heibio Beudy'r Gors. Ar dywydd gwlyb, fe ai fy nhad hefo nhw a chael paned o de gan y Brifathrawes cyn cychwyn yn ôl!

Fe aeth Sophie a Dafydd ymlaen wedyn i Ysgol Brynrefail (y Llanberis District County School fel y gelwid hi bryd hynny.) Roedd bws hwylus i'w cludo yno ac yn ôl, sef y 'Bangor Blue' o Fangor i Lanberis ac yn wir dewisai amryw o blant eraill o Rhiwlas fynd i Frynrefail yn hytrach nag i Fethesda a chaent hwythau eu codi gan y bws yn Efail Castell.

Aeth y chwaer a'r brawd yn eu blaenau hyd nes cyrraedd y Chweched Dosbarth ac yn y cyfamser dewiswyd Sophie i gynrychioli Sir Gaernarfon yn eu cystadlaethau hoci. Ei hawydd wedyn oedd mynd i Goleg y Santes Fair ym Mangor i hyfforddi fel athrawes. Nid oedd hyn yn syndod i neb. Roedd sôn amdani yn Ysgol Rhiwlas yn chwarae 'ysgol' efo'i chyd-ddisgyblion ac yn eu gosod yn rhes ar yr iard! Clywais ein mam hefyd yn dweud na fyddai fy chwaer byth yn 'magu' ei doliau ond yn eu sodro ar y grisiau a'u 'dysgu'!

Aeth Sophie i ddysgu yn Lerpwl ymhen amser, i ysgol mewn ardal dlawd ger y dociau. Dyma gyfnod dinistrio'r ddinas yn sylweddol gan y bomiau a chafodd brofiad helaeth o hynny. Ond yr oedd y ci bach swnllyd yn ei thŷ lojin yn waeth na dim, meddai hi!

Ond roedd gan Sophie ddiddordeb mewn 'arallgyfeirio' a dilynodd gwrs tair blynedd 'Dance and Movement' yn Llundain yn stiwdio Rudolf Laban, arbenigwr enwog o'r Cyfandir. Enillodd gymwysterau i hyfforddi athrawon sut i ddysgu plant i ddawnsio'n greadigol a sut i symud eu cyrff i gyfleu gwahanol syniadau a theimladau.

Cafodd swydd fel darlithydd yng ngholeg hyfforddi athrawon St. Matthias ym Mryste hyd nes trosglwyddwyd gwaith y colegau hyn i'r prifysgolion. Ymhen amser enillodd radd BA drwy Brifysgol Caerlŷr. Treuliodd gyfnodau wedyn yn gweithio'n rhan-amser i'r BBC a bu'n hyfforddi aelodau'r Cwmni Opera Cymraeg a'r Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd ar sut i symud ar lwyfan wrth ganu ac actio.

Yn 70 oed cyflwynodd draethawd i Brifysgol Llundain yn seiliedig ar ei gwaith a'i gwybodaeth helaeth am ddawnsio gwerin ledled y byd ac enillodd Ddoethuriaeth. Ymddangosodd ei henw yn *Who's Who* yn ystod yr un cyfnod.

Wedi oes brysur a lliwgar dychwelodd adref i Fangor a chawsom fel teulu dair blynedd hapus hefo'n gilydd tan ei marwolaeth yn 1997. Bu'n eglwyswraig bybyr ers ei phlentyndod yn Eglwys Pentir ac fe'i rhoddwyd i orffwys, yn ôl ei dymuniad, hefo'i rhieni ym Mynwent y Plwyf yno.




### Gala Nofio

Llongyfarchiadau mawr i dîm nofio Ysgol Rhiwlas a fu'n cystadlu yng ngala nofio Byw'n Iach Gwynedd ym Mangor. Da iawn Tomi, Cadi, Nel, a Daniel – mae'r ysgol yn falch iawn ohonoch chi.

# YSGOL BODFEURIG

### Ymweliad Ysgol Dyffryn Ogwen

Diolch yn fawr iawn i Ysgol Dyffryn Ogwen am groesawu plant blwyddyn 4 yno ar gyfer bore blasu. Cafodd y criw amser gwych yn eu gwers celf yn dysgu am argraffu cyn cael cyfle i goginio cacennau cri. Roedd hefyd yn gyfle i ddechrau dod i adnabod staff yr ysgol a phlant o ysgolion eraill yn y dalgylch. Profiad gwerthfawr i griw blwyddyn 4 - mae plant eraill yr ysgol bellach yn edrych ymlaen yn fawr i ymweld yn y dyfodol.



### Hyfforddiant Beicio

Bu blwyddyn 5 a 6 yn brysur iawn yn ddiweddar yn cymryd rhan mewn hyfforddiant beicio – roedd rhaid dysgu gwneud sgiliau penodol ac yn dangos i'r hyfforddwyr eu bod yn gallu eu gwneud. Llongyfarchiadau pawb am weithio mor galed tuag at eu lefel 1.





### 'Bake Off' Bodfeurig

Mae bellach yn draddodiad yn yr ysgol i gynnal cystadleuaeth 'Bake Off Bodfeurig'. Eleni roedd dwy gystadleuaeth sef cacen fawr a chacennau bach. Roedd y cystadlu yn frwd gyda llawer yn gobeithio ennill y brif wobr. Yn dilyn y gystadleuaeth croesawyd rhieni a chyfeillion yr ysgol i flasu'r cacennau a'u mwynhau gyda phaned! Diolch i'r CRhA am drefnu ac i bawb am gefnogi a chodi arian ar gyfer yr ysgol a llongyfarchiadau i'r rhai buddugol.

### Sylwebwyr pêl-droed y dyfodol?

Mae'n debyg fod rhai ohonoch yn gyfarwydd â llais Bryn Tomos - sylwebydd pêl-droed penigamp. Wel tybed os oes rhai o blant yr ysgol am ddilyn yn ôl ei droed? Cafwyd bore hyfryd yn ei gwmni yn dysgu am waith sylwebwyr pêl-droed - cyfle i ddysgu am yr iaith, yr offer ac yn wir mor gyflym mae'n rhaid siarad! Yna roedd cyfle i bawb roi cynnig ar sylwebu ar gêm bêl-droed ar y sgrin fawr! Diolch i Bryn am eich amser.




### Dydd Gŵyl Dewi

Ar ddydd Gŵyl Dewi roedd yn braf cael dod at ein gilydd, yn deulu a ffrindiau'r ysgol, i ddathlu ein Cymreictod gyda'n gilydd. Cynhaliwyd cyngerdd yn y Neuadd Goffa ym Mynydd Llandegai gan fwynhau gwledd o ganu, dawnsio gwerin ac adrodd. Gobeithio fod y gynulleidfa wedi mwynhau'r panad a chacen gri yn ogystal â'r cyngerdd.



# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Profedigaeth**
Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Gareth Jones, Waen y Pandy. Anfonwn ein cydymdeimlad gyda'i briod Euronwy, ei blant Alan a Nia, ei wyrion a'i holl deulu a'i ffrindiau oll.

Bu farw cymydog i Gareth ar Chwefror 10 sef David James Gleave ac yntau'n 87 oed. Bu David yn athro Saesneg yn Ysgol Friars, Bangor, cyn ei ymddeoliad. Cydymdeimlwn gydag Elizabeth, ei blant, ei frawd, ei ffrindiau a'r holl deulu yn eu profedigaeth o'i golli.

## Capel Shiloh Newydd

**Gwasanaethau yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.**
Ebrill 21 – Glyn Tomos, Caernarfon
Ebrill 28 – Dr Jennie Hurd
Mai 5 – Huw Pritchard, Llangefni
Mai 12 – Sul Cymorth Cristnogol Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni
Mai 19 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Mai 26. Dr Ian Morris

Anfonwn ein cofion at yr holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon yn Shiloh oherwydd gwaeledd neu unrhyw reswm arall. Rydym yn eich colli yn y gwasanaethau ac yn gobeithio'n fawr y byddwch yn gwella fel daw'r gwanwyn a'r haf.

Anfonwn wellhad buan i Anwen Griffiths, gynt o Sling, ac yn awr yn byw yn Dwygyfylchi, ond sydd yn parhau i fod yn aelod gyda ni yma yn Nhregarth. Bu Anwen dan lawdriniaeth yn yr ysbyty yn Whiston yn ddiweddar ond da ydi deall ei bod yn gwella.

**Lleuwen Steffan yn Shiloh**
Mae yna hen edrych ymlaen at Nos Sadwrn, Ebrill 27, am 7.30 o'r gloch pan fydd Lleuwen yn perfformio 'Emynau Coll y Werin ', sef rhan o'i theithiau cerddorol yng Nghymru eleni. Wedi cyfnod o ymchwilio i hen emynau coll sydd i'w clywed yn archif Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan mae Lleuwen wedi dewis a dethol rhai o'r emynau coll i'w cyflwyno ac mae hen edrych ymlaen at y perfformiad.

Cofiwch ddod draw i Shiloh i fwynhau a chael y profiad arbennig o glywed Lleuwen yn perfformio'r emynau coll. Does dim angen tocyn na thal, dim ond eich presenoldeb chi. Dewch yn llu!

**Drws Agored**
Ydi, mae drysau Shiloh yn agored pob bore Gwener o 10 tan 12 o'r gloch. Cyfle i sgwrsio, paned ac amser hwyliog. Da ydi cael croesawu cymaint i'n plith. Yn ystod Mis Mawrth cawsom de parti bach i ddathlu dwy oedd yn cael eu penblwyddi, sef Helen Wyn (Tammy Jones) a Mona Williams. Hyfryd oedd cael dathlu gyda'r ddwy a theisen i goroni popeth.





## Merched y Wawr

Daeth criw da ohonom ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn festri Capel Shiloh Newydd, Nos Lun y 4ydd o Fawrth. Diolch i'r aelodau fu'n brysur yn paratoi'r cawl cennin a'r gacen gri, cawsom bryd blasus iawn.

Cawsom noson wych o ddathlu gyda Gwennant Pyrs ac Alwen Derbyshire yn ein diddanu. Dwy o 'forynion glan Meirionnydd', Gwennant yn wreiddiol o Lanuwchllyn ac Alwen o bentref Talybont ger Harlech. Mae cerddoriaeth a chystadlu yng ngwaed y ddwy sydd wedi cydweithio am flynyddoedd lawer yn ysgol David Hughes cyn ymddeol. Tra'n gweithio yn yr ysgol bu'r ddwy yn brysur yn cydweithio ar Sioeau cerdd llwyddiannus iawn. Gwennant yn gyfrifol am y gerddoriaeth ac Alwen yn ysgrifennu'r sgriptiau. Aethpwyd a ni ar daith gerddorol a hwyliog wrth iddynt ein cyflwyno i rai o'u campweithiau fel 'Neges yn fy nghan' a 'Dal i gredu' a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Cân i Gymru yn 1992. Cawsom hefyd gwrdd ambell i gymeriad doniol o'r sioe Camp a Rhemp ac ambell i gan hwyliog iawn lle'r oedd pawb yn chwerthin a mwynhau. Diolch o galon i'r ddwy amryddawn am wneud ein dathliad Gŵyl Ddewi yn un arbennig a chofiadwy. Thema ein cystadleuaeth Cwpan Perthi oedd 'Caru Cymru a beth mae hyn yn ei olygu i chi'. Roedd hi'n gystadleuaeth dda gyda Margaret yn cael y 3ydd wobr, June yr 2il wobr ac Eurwen yn cipio'r wobr 1af gyda'i llun arbennig o'r gerdd Dros Gymru'n Gwlad.

Nos Lun, Ebrill y 1af bu Mary Jones, un o'n haelodau ffyddlon yn rhoi sgwrs i ni ar 'iaith Pesda'-noson ddiddorol iawn.

Croeso cynnes i unrhyw un newydd ymuno a ni.







# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Y mis diwethaf roeddwn yn sôn am y tŷ, ac wrth sgwrsio dywedwyd wrthyf bod un person pan yn fachgen bach yn cael ei siarsio i aros yn y 'talcan' i chwarae, hynny ydy 'talcen y tŷ'. Mae 'na gymaint o eiriau sy'n ymwneud â'r tŷ. Mae'n ddiddorol mai ystyr y gair 'tŷ' ydy adeilad, a dyma pam mae gynnon ni enwau ar wahanol fathau o adeiladau sy efo'r gair 'tŷ' ar eu diwedd nhw – ysbyty, popty, gweithdy, tloty, pwerdy, stordy, bragdy plasty, hafoty, pandy, beudy ac ati. Adeilad y toiled oedd 'tŷ bach', ac roedd o naill ai ym mhen draw'r ardd neu yn y cowt yng nghefn y tŷ. Daeth y gair 'lafatri' i gael ei ddefnyddio ar un adeg, a chlywir 'lle chwech' yn aml. Mi glywais y gair 'geudy' hefyd. Wrth gwrs, yr enw swyddogol gan y cynghorau ydy 'cyfleusterau cyhoeddus' a 'toiledau cyhoeddus'.

**AMBELL AIR AC YMADRODD**

**stwnsh, stwnsio, stwnsian**
Dyma eiriau sy'n cael eu defnyddio'n aml ac mewn gwahanol sefyllfaoedd bob dydd. Gymerwn ni 'stwnsh rwdan' i ddechrau. Pryd o fwyd blasus efo rwdan a thatws wedi eu stwnsio, sef eu malu a'u gymysgu. Wedyn, pan fydd rhywun yn cymysgu pethau yn ei feddwl ac yn rwdlian neu falu awyr, mi fyddwn ni dweud "Rwyt ti'n stwnsio rŵan." Yna, beth am y defnydd wnawn ni o'r gair 'stwnsh' wrth gyfarch plentyn yn annwyl – "Tyrd yma, stwnsh." Mae o 'run fath â dweud 'cyw' neu 'del'. Hefyd, pan fydd rhywun yn 'poitsian' neu'n busnesu a gwneud llanast – "Be nath iddi ddechra stwnsian? Mae'r cwbwl wedi mynd o chwith."

**crand.** Bod yn drwsiadus ydy hwn, ac yn aml mae'n golygu bod yn anarferol o smart – "Mae hi'n grand o'i cho' yn ei ffrog newydd."

**swanc.** Mae hwn yn debyg ei ystyr i 'crand': "Tydi di'n edrach yn swanc heddiw." "Mae hi wedi dechrau sawncio ar ôl ennill mwy o gyflog."

**lluch dafl.** Mae dwy ystyr yma i'r ymadrodd hwn. Y cyntaf ydy disgrifiad o rywbeth di-werth – "Rhyw lich-dafl o beth oedd yr hen jwg 'na." Yr ail ydy disgrifiad o blentyn yn cael ei fagu ar y cyd rhwng perthnasau, a'r ymadroddion 'llicht i dafl' a 'llich-di-dalfr' fyddai'n cael eu dweud ers talwm.

**cael y mỳll.** Gwylltio mae hwn yn ei feddwl. Bod mewn tymar ddrwg - mewn tempar. Mae o'r un ystyr â 'gweld dim' a mynd i 'dop caets' - "Well iti gadw'n glir o'rwth hi. Mae hi wedi cael y mỳll."

**giamocs.** Ystyr hwn ydy triciau, ystrywiau: "Paid â cymryd sylw ohono fo. Gneud giamocs mae o rŵan."

**mwrw.** Grŵp neu uned o dri ydy hwn wrth gyfri'. Yma yn ein hardal ni, un o dermau'r chwarel oedd o. 'Mwrw' oedd tair llechen. Ar hyd y glannau, 'mwrw' gan bysgotwyr môr oedd tri phennog, ac mewn ardaloedd lle roedd perllannau, 'mwrw' oedd tri afal.

**fflîch.** Lluchio neu daflu ydy ystyr hwn, ac mae o'n dŵad o'r gair Saesneg '*flight*' - "Mae isio rhoi fflîch i'r hen betha 'na."

**ffling.** Mae hwn yn golygu'r un peth â 'fflich', sef taflu, lluchio – "Mae isio rhoi ffling i'r hen focsys 'na."

**smonach.** Dyna fydda i yn ei ddweud pan fyddaf wedi gwneud llanast o rywbeth. Cefais nodyn gan Andre Lomozik yn cyfeirio at y gair fel 'sbonach'. Beth fyddwch chi yn ei ddweud?

**sgrag.** "Ti isio sgrag o hwn?" neu" Tyrd a sgrag o'r afol 'na imi." Neu weithiau byddai afal yn cael ei rannu a phawb yn cael sgrag yr un, neu frathiad o'r afal

**ceffyl trol.** Wrth sôn am beldroediwr wedi arafu ei gam, clywais yr ymadrodd 'Ceffyl trol ydi o bellach' felly yn da i ddim mewn ras gan ei fod wedi mynd yn rhy hen.

**paid a deud!** Dyma a ddywedwn pan fyddem ni'n clywed rhyw newyddion annisgwyl, neu rywbeth sydd bron yn anghredadwy a bydd goslef y llais yn cyfleu hynny wrth ei ddweud. Ymadrodd digon tebyg ydy 'taw â sôn' a'r peth olaf sydd ar eich meddwl ydy tawelu y person.

Cyn gorffen hoffwn ddiolch i Merched y Wawr, Tregarth am eu croeso, roeddwn wrth fy modd yn cael rhannu a chymharu geirfa.

Mae hi mor bwysig nad yda ni'n colli'r eirfa gyfoethog sydd yn y dyffryn. Anfonwch ataf Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN 07443047642, maryeds@hotmail.co.uk

# Ynni Ogwen

Braf oedd croesawu cynrychiolwyr Ynni Cymru i ymweld â'r cynllun hydro ar Afon Ogwen yn ddiweddar.

Ynni Cymru yw'r cwmni ynni cyhoeddus a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023.

Fe wnaeth Ynni Ogwen hefyd achub ar y cyfle i drafod eu huchelgeisiau ar gyfer cynyddu cynhyrchiant ynni glân, gan gynnwys ehangu'n sylweddol eu rhaglen Heuldro i osod paneli solar ar doeau adeiladau cymunedol a safleoedd busnes.

Mae'n bosib i chi sylwi ar waith yn digwydd ar do Clwb Rygbi Bethesda ychydig cyn gwyliau'r Pasg?

Hwn oedd y gosodiad paneli solar diweddaraf trwy raglen Heuldro Ynni Ogwen. Mae'r paneli newydd bellach yn cyflenwi 8.9kWp ychwanegol o drydan glân a fforddiadwy i'r clwb yn dilyn llwyddiant y system 4kWp a osodwyd yn 2020.

Diolch i'r Clwb Rygbi am eu cydweithrediad parhaus ac i gwmni Anglesey Solar & Electrical am safon uchel eu gwaith.

Rydym yn awyddus i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn lleol er mwyn cynnig trydan rhatach a sicrwydd pris i'r defnyddwyr. Os ydych yn ymwneud ag adeilad cymunedol ac eisiau gwybod mwy am fanteision rhaglen Heuldro cysylltwch â ni ar ynni@ogwen.org



# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaethau**
Ar y dydd olaf o Chwefror, daeth y newyddion trist am farwolaeth un arall o'n ffrindiau ffyddlon, sef William Hugh Hughes, 7 Lôn Ddŵr, neu Hughie Post, fel yr adnabyddid yn y pentref.

Bu farw'n dawel yn ei gartref yng nghwmni ei deulu. Nid oedd mewn iechyd da ers rhai misoedd, gan beri pryder i bawb ohonom, oherwydd bu'n iach a heini hyd ei oes.

Rita, estynnwn gariad a chydymdeimlad yr ardal gyfan atat tithau a'r teulu ar adeg mor drist. Fel ffrindiau a chymdogion, byddwn yna iti bob amser. Roedd Hughie yn un o'r goreuon; yn fonheddwr tawel, dirodres ac yn ffeind wrth bawb. Gedy fwlch enfawr ar ei ôl.

Yna, ar fore cynta'r Gwanwyn, clywsom fod Linda Jones, Sŵn y Nant, Maes y Groes, wedi'n gadael, ar ôl cystudd a ddioddefodd yn hynod o ddewr. Drwy'r cwbl, cafodd ofal tyner gan Ifan ei gŵr, a'r teulu agos.

Roedd Linda fel chwa o awyr iach, yn codi calon pawb a ddeuai i gysylltiad â hi. 'Fedrai neb deimlo'n drist yn ei chwmni; roedd ei gwên a'i chynhesrwydd cynhenid yn mynd o'i blaen hi, lle bynnag yr elai.

Os byddwn ni, ei ffrindiau, yn colli cwmni Linda, cymaint yn fwy bydd y golled ar ei haelwyd. Ifan, Glyn, Gareth, Gerwyn a'ch teuluoedd oll, estynnwn gydymdeimlad dwysaf yr ardal gyfan atoch yn eich hiraeth.

**Llongyfarchiadau**
Mae Cemlyn Greenhalgh, 61 Bro Emrys, wedi gwireddu breuddwyd o'i blentyndod cynnar, i ymuno â Chatrawd yr Awyrfilwyr (Paratroopers).

'Doedd y llwybr ddim yn hawdd. Mae Cemlyn wedi gorfod cyrraedd lefel uchel iawn o ffitrwydd, a dangos ei allu i ganolbwyntio a dal ati o dan amgylchiadau hynod ddyrys. Mae ei ddycnwch wedi talu iddo ar ei ganfed, a bu'r teulu balch yn bresennol i'w wylio'n gorymdeithio gyda'i gyd-filwyr.

Cemlyn, rwyt ti wedi gweithio'n galed iawn, a dymunwn bob llwyddiant iti yn dy yrfa.

Brysied y dydd pan fydd y byddinoedd yn cael gwared o'u harfau rhyfel, a defnyddio egni ac ymroddiad milwyr ifainc gwych, fel ti, i greu byd gwell a heddychlon inni i gyd.

**Dymuniadau gorau**
Mae'n braf clywed bod Dafydd Pritchard, Bryn Môr, Gatws, wedi gwella'n dda ar ôl ei driniaeth ddiweddar. Anfonwn gofion gorau ato, ac at Anne, ei wraig, sydd yn aros yng Nghartref Nyrsio Bryn Marl, Cyffordd Llandudno.

**Anrhydedd**
Agor ein llygaid i ryfeddodau'r byd o'n cwmpas mae Jim Langley, 7 Dolhelyg. Mae o'n gwirfoddoli gyda Chymdeithas yr Hyfforddwyr Mynydd, ac fel gwerthfawrogiad o'i ymroddiad, ei arweiniad a'i waith diflino dros nifer helaeth o flynyddoedd, mae'r Gymdeithas wedi'i anrhydeddu gyda Thlws Blynyddol 'Gwirfoddolwr dros yr Amgylchfyd'.
Mae Jim yn gweithio'n ddi-baid, yng Nghymru a thramor, i godi ymwybyddiaeth o natur frau'r amgylchedd. Mae o wedi tywys cannoedd o bobl ar deithiau o gwmpas y wlad, gan bwysleisio'r pwysigrwydd o gadw ei harddwch a'i glendid ar gyfer yr oesoedd a ddaw.

Mae Jim yn aelod brwd o griw Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Mae o hefyd wedi cyrraedd Lefel Aur 'Llysgennad Eryri', sy'n brawf o'i wybodaeth leol eang.

Deil ati'n ddygn i ddysgu Cymraeg, er ychydig yn swil o'i defnyddio. Dowch, Gymry Talybont, dyma'n cyfle i godi ei hyder, ac ennill siaradwr rhugl arall i'n plith.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Ebrill 21: Mr. Dafydd Iwan.
Ebrill 28: Oedfa.
Mai 5: Parchg. Olaf Davies.
Mai 12: Parchg. Dewi T. Morris.
Mai 19: Parchg. Gerallt Lloyd Evans.
Mai 26: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.
Croeso cynnes i bawb.

**Bwrlwm Bethlehem**
Ar brynhawn Iau, 28 Mawrth, hyfrydwch oedd croesawu'r actores adnabyddus, Gwen Elis i'n cyfarfod yn y Festri. 'Roedd yno gyda'r bwriad i recordio'r criw yn hel atgofion am Dalybont a'r cylch. Cafwyd amser difyr a chofiadwy wrth i bawb rannu straeon o bob math am gyfnod eu plentyndod yn y 40degau, 50degau a'r 60degau. 'Roedd yr atgofion yn byrlymu o bob cyfeiriad, weithiau ar draws ei gilydd. Dyma beth oedd "Bwrlwm" yng ngwir ystyr y gair! Diolch i Gwen am ei gwaith yn rhoi'r gorffennol ar gof a chadw.

**Colled Enfawr**
Mae colli aelod o'r capel yn destun tristwch mawr bob amser, ac yn arbennig colli aelod ffyddlon fel Hughie. Bu enw William Hugh Hughes ar restr aelodau Bethlehem ers blynyddoedd lawer, ble bu hefyd yn un o ymddiriedolwyr y capel. 'Roedd Hughie mor barod ei gymwynas bob amser, boed hynny yn gofalu am wneud y casgliad o Sul i Sul neu'n cynorthwyo mewn Te Mefus neu Ffair Nadolig. Roedd yn bleser bod yn ei gwmni yn y "Bwrlwm" bob bythefnos. Roedd y ffaith bod Amlosgfa Bangor yn orlawn ar ddydd ei angladd yn arwydd pendant o'i boblogrwydd, gyda phobl o bell ac agos wedi dod i dalu'r gymwynas olaf i Hughie. Cafodd wasanaeth angladdol teilwng iawn dan arweiniad ei gyn-weinidog, y Parchedig John Pritchard. Cydymdeimlwn yn ddwys, fel cyd-aelodau, â Rita a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u colled.

**Cymwynaswr**
Mae gennym le i ddiolch i Mr. Julian Johnson, Bro Emrys am ei waith gwirfoddol tawel a diffwdan. Ers tro, bellach, mae Julian wedi bod yn gofalu bod y fynedfa blaen i'r capel yn cael ei gadw'n daclus drwy chwynnu ac ati. Mae'n gwneud hyn, yn ogystal â chymwynasau eraill yn yr ardal, o'i ben a'i bastwn ei hun. Diolch o galon Julian!

**Gwibdaith**
Aeth criw bach o aelodau clwb 'Bwrlwm Bethlehem' am dro i Tweedmill ym mws bach Ogwen y mis diwethaf.

Roedd y daith yn y bws naw sêt yn gyffyrddus iawn ac Ifan, y gyrrwr, yn benigamp. Daeth i lawr i Dalybont i godi rhai ohonom y tu allan i'r capel, oedd yn help garw.

Gwnaeth pawb fwynhau'n fawr iawn, ac edrychwn ymlaen at y wibdaith nesaf.

Diolch i Angharad am drefnu, ac i Bartneriaeth Ogwen am ddarparu bws trydan at ddefnydd holl gymunedau'r Dyffryn.



Wedi cyrraedd Tweedmill

# Dip dydd Gŵyl Dewi



Y criw dewr fu'n trochi



Er bod Mawrth y 1af wedi hen basio, anghofiais gynnwys lun o ddigwyddiad Dewch i Drochi Dros Dewi Pesda yn rhifyn mis diwetha'r Llais. Felly dyma lun o griw bach ddaeth at ei gilydd ar y 1af yn y gwynt a'r glaw!

**Cydymdeimlad**
Gyrrwn yn ein cydymdeimlad dwysaf at Gareth a Nia Hywyn Tan Treflys wrth i Nia golli ei thad John Hywyn o Landwrog. 'Roedd John yn fardd a beirniad llenyddol dawnus a chraff ac 'roedd yn derbyn Llais Ogwan yn fisol gan ei fod wrth ei fodd efo'r cynnwys. Bydd Gwenno a Deio yn colli taid yn fawr. Danfonwn ein cofion cynhesaf atoch a'r teulu i gyd.

**Pen-blwydd arbennig**
Pen-blwydd hapus arbennig iawn i Richard Ogwen. Dwi'n siŵr bod dathlu mawr wedi bod efo'r teulu yn Yr Ardd Fawr. Ymlaen i'r degawd nesaf rŵan!

Dymuniadau gorau i Dyfan Davies, Stryd Goronwy a fu'n dathlu pen-blwydd go arbennig yn ddiweddar hefyd. Gobeithio bod chdi wedi cael diwrnod i'w gofio.

**Cydymdeimlo**
Trist oedd clywed am farwolaeth Bill Speddy a fu farw'n ddiweddar. Bu Bill a'r teulu'n byw'n Stryd y Ffynnon am flynyddoedd cyn symud o'r ardal ac 'roedd yn un da am godi arian yn y pentref. Cydymdeimlwn gyda Susan, Steven, Andrew a'r teulu i gyd.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau mawr i John a Davina Evans Stryd Morgan sydd wedi dod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Gannwyd George, mab bach i Carwyn a Hollie sydd yn byw yn Abbey Wood ger Llundain yn ddiweddar ac mae'r teulu i gyd wedi dotio. Edrychwn ymlaen at weld y teulu bach yn dod i ymweld â Gerlan yn fuan.

**Carnifal Bethesda**
Bydd Carnifal Bethesda ymlaen eto ar y 18fed o Fai eleni ac 'rydym yn cynllunio i gael fflôt o Gerlan er mwyn gallu cymryd rhan yn yr hwyl. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r diwrnod – cysylltwch efo fi er mwyn i mi fedru rhannu mwy o fanylion. (07789916166 / carenelaine@hotmail.com)

**Caban Gerlan**
Erbyn i'r rhifyn yma o Lais Ogwan gael ei gyhoeddi, mi fyddwn eisoes wedi cynnal digwyddiad yn Y Caban ar Ebrill y 13eg er mwyn gael barn y gymuned am sut y gallwn wneud mwy o ddefnydd o'n neuadd bentref arbennig a beth yr hoffai pawb ei weld yn digwydd yno. Os fethoch chi ddod i'r digwyddiad yma, beth am i chi roi eich barn beth bynnag trwy gwblhau holiadur? Gallwch ei gwblhau trwy ddefnyddio'r linc yma https://forms.gle/vd11iXYRkB4k5za38 - da ni'n awyddus i glywed gan bobl yn ardal Bethesda i gyd yn ogystal â Gerlan ac yn edrych ymlaen at glywed syniadau pawb. Gobeithio y bydd llawer mwy o newyddion yn cael ei rannu am y neuadd dros y misoedd nesaf wrth i ni ddatblygu syniadau a chydweithio efo'r gymuned.

**Pasio prawf gyrru**
Llongyfarchiadau i Gruff Hughes, Ciltwllan ar basio ei brawf gyrru. Tacsi newydd i mam, dad, Mali a Tomi!

**Diolch am flynyddoedd o wasanaeth**
Diolch i Dave Roberts, Ciltwllan, am adael i mi wybod ei fod wedi bod yn gweithio am 34 o flynyddoedd i'r gwasanaeth iechyd erbyn hyn. Dwi'n siŵr bod llawer o bethau wedi newid dros yr holl flynyddoedd ond da ni gyd yn hynod o ddiolchgar i ti am dy gyfraniad a gwaith caled dros y blynyddoedd Dave.

## Rhedeg marathon i godi arian at achos da

Bydd Huw Davies, Tŷ Dŵr, yn rhedeg marathon Leeds ar y 12 fed o Fai ac yn codi arian yr un pryd at glefyd Motor Neurone. Dwi'n siŵr y bydd llawer yn awyddus i'w noddi a chyfrannu at yr achos teilwng yma. Dyma linc i'w dudalen Just Giving https://www.justgiving.com/page/huw-davies-1711962026914?newPage=true. Pob lwc efo'r ymarfer Huw ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes!




Hei lwc i Huw yn y marathon yn Leeds

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Gwyl Melangell

Eglwys Glanogwen
LL57 3NL
Gwener
24 /5/24
7yh



**NOSON O ADLONIANT**

Raffl

*Chwedlau, Cherddoriaeth, Barddoniaeth...a mwy!*

Martin Daws
Lleisiau'r Mynydd
Pixie
Joanna Melville -Richards
Claire Mace
Jo Munton

Tocynnau: £15
holl elw: Apêl Glanogwen & MAP
sararoberts@cinw.org.uk 07967652981

## 47 fed SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN

**DYDD SADWRN 1AF FEHEFIN 2024**
CAEAU RYGBI BETHESDA
Cartref - Ceffylau
Defaid - Cwn
Peiriannau – Stondinau
Adloniant - Mabolgampau
**Mynediad**
**Oedolion - £6.00**
**Pensiynwyr - £4.00**
**Plentyn - £2.00**



www.sioedyffrynogwen.co.uk

## Neuadd Bentref Rhiwlas

**Darlith Gyhoeddus**
(drwy gyfrwng y Gymraeg)
Dydd Iau, 25ain Ebrill am 7.00pm
**'Ysgol Rhiwlas yn 150 mlwydd oed'**
(hanes yr ysgol rhwng 1874- 1924)



## GWŶL HINSAWDD 2024



**06.05.24**
**11:00-16:00**
**CANOLFAN TREGARTH**

PARTNERIAETH OGWEN
GWYRDDNI
GWYRDDNI.CYMRU
CHRIS@OGWEN.ORG

## CANOLFAN CEFNFAES

### Gyrfa Chwist

Ebrill 23 a 30
Mai 14 a 28

am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## FESTRI CARMEL LLANLLECHID



### TE BACH

**Dydd Llun, 29 Ebrill**
2.30 – 4.00
Croeso cynnes i bawb

## FESTRI JERUSALEM

### BORE COFFI

**Clwb Gorffwysfan**
**Sadwrn, 27 Ebrill**
**10.00 – 12.00**
**Mynediad: £1.00**

## FESTRI JERUSALEM

### BORE COFFI Y GYMDEITHAS

Sadwrn, 11 Mai
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

## CEFNFAES (LLAWR UCHAF)

### BORE COFFI EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

Sadwrn, 20 Ebrill
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

## Clwb Coffi Talybont

### FESTRI BETHLEHEM

Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Ebrill 22**
**Mai 13**
Croeso cynnes i bawb

## Eglwys Glanogwen

### Ffair Wanwyn

2-5yp
*Sul 26 o Fai*
hwyl!

stondinau
£10 am stondin
crefftau
Lluniaeth
cacennau
Planhigion

Dilynwch
Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2024**

**20 Ebrill** – Eisteddfod Dyffryn Ogwen – Cefnfaes.
**27 Ebrill** – Clwb Gorffwysfan – Festri Jerusalem.
**11 Mai** – Cymdeithas Jerusalem - Festri Jerusalem.
**18 Mai** – Cymorth Cristnogol – Cefnfaes.
**28 Medi** – Clwb Gorffwysfan – Festri Jerusalem.

**Pwysig**
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos bob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

Cefnfaes (Llawr Uchaf)

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**

Sadwrn, 18 Mai
10.00 – 12.00

Mynediad:
£1.00


**Holiadur ymgynghoriad cyhoeddus Strategaeth Llifogydd Lleol Drafft Cyngor Gwynedd**

CYNGOR GWYNEDD

Rydym eisiau barn y cyhoedd, partneriaid risg ac awdurdodau cyfagos am ein Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol drafft.

Gallwch lenwi'r holiadur:

- Ar-lein drwy ymweld â'r wefan: **www.gwynedd.llyw.cymru/dweudeichdweud**
- Drwy gael copi papur o'ch llyfrgell neu Siop Gwynedd Leol.
- Drwy ffonio derbynfa Penrallt (01286 679 426) am gymorth ychwanegol ac am gopi papur.

Mae'r holiadur ar agor tan y 5ed o Fai.


# Rhedeg dros ryddid a chasglu dros £2,000

Yn ddiweddar, mae Mary Gillie o Lanllechid wedi cwblhau her sylweddol wrth redeg 70.8Km gan gasglu arian i elusen sy'n cefnogi pobl sy'n dioddef yn Gaza.

Dewisodd y pellter penodol yma gan fod y mur yn y Lan Orllewinol yn 708Km o hyd. Fel rhedwr profiadol sy'n mwynhau crwydro mynyddoedd yr ardal, roedd y daith yma yn dipyn o her, hyd yn oed i Mary.

Roedd yna griw o gyfeillion wedi trefnu i gefnogi Mary ar hyd ei thaith wrth iddi gychwyn ben bore. Ond er hynny, roedd y tywydd yn ddigon gaeafol ar Garnedd Llywelyn, dros y Glyderau ac yna ar hyd Llwybr y Mwynwyr.

Doedd fawr o olygfa ar Yr Wyddfa yn y tywydd mawr, ond ymlaen â hi, trwy Lanberis ac roedd cael cwmni ei chi Roy am ran ola'r daith o Ddeiniolen yn ddigon o hwb iddi gyrraedd nôl gartref yn ddiogel.

Hoffai Mary ddiolch i bawb a gefnogodd hi'n ystod y daith, ac i unrhyw un sydd wedi ei chefnogi yn ariannol.

Llongyfarchiadau mawr i Mary ar ei champ, gan godi swm teilwng iawn o £2,233.

Mae mwy o'r hanes ar wefan Ogwen360.



Mary gyda' Roy ei chi a ymunodd ar gyfer rhan ola'r daith

OGWEN TERRACE, BETHESDA

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 17

**11 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

**Hugh H. Williams** oedd yn byw yn rhif 11 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871. Mae'n cael ei nodi fel pen teulu 41 oed a'i fod yn ŵr gweddw. Yn ôl yr wybodaeth a gafwyd oddi ar y garreg fedd, bu Margaret ei wraig farw ym 1868 yn 36 oed, a dau blentyn hefyd, sef Jane a fu farw yn flwydd a dau fis oed yn 1855, ac Ellin a fu farw yn 1870 yn chwech oed.

Roedd pump o blant yn byw gyda Hugh yn 1871, Hugh yn 14 oed, Jane yn 13, Hannah yn 11, Mary Anne 5, a Margaret Grace yn 3. Roedd Sarah Jones yn forwyn iddo a hithau yn weddw 39 oed.

Crydd yn cyflogi 9 o ddynion oedd Hugh H. Williams, a'r adroddiad cyntaf rwyf wedi dod ar ei draws yw hanes priodas ei ail ferch, Hannah, i Mr R. Williams, Tŷ'n Tŵr ar Ionawr y 16eg 1878 yn Eglwys Jerusalem, Bethesda.

Yng nghyfrifiad 1881, dyma pwy oedd yn aros yn 11 Ogwen Terrace: Hugh Williams, pen teulu; Jane Williams, merch; Mary Ann, merch; Margaret Grace, merch; Hugh Henry Williams, mab; a Sarah Jones, morwyn. Roedd Hugh Henry yn nodi mai myfyriwr yn Rhydychen ydoedd.

Yna ar Dachwedd 18fed, 1887 cawn adroddiad yn y *North Wales Observer and Express* lle mae mab Hugh H. Williams, sef y Parch. Hugh Henry, yn cael ei gyflwyno â rhodd ar y noson cyn iddo ymadael am Awstralia oherwydd amgylchiadau iechyd. Yn yr adroddiad cawn wybod bod y cyfarfod wedi ei gynnal yn swyddfa '*Mr John Griffith, the well-known iron merchant of Tower Buildings, Water-street, Liverpool.*' Roedd amryw o bregethwyr blaenllaw y cyfnod yno, ac mae'r adroddiad yn dweud bod cyfanswm o £79 wedi ei roi i Hugh Henry Williams gan nifer o gyfeillion a dymunwyr da, yn eu plith yr Arglwydd Penrhyn a gyfrannodd £10. Roedd y Parch. Hugh Henry yn hwylio am Melbourne ar fwrdd yr S. S. Oroya, ac roedd pawb yn y cyfarfod yn gwybod y byddai'n llwyddo yn Awstralia. Yn Rhydychen roedd yn cael ei adnabod am ddysgu'r geiriadur Lladin yn drwyadl, gan ei fod yn gallu darllen Lladin mor



rhwydd â Saesneg a'i famiaith, ac roedd yn gyfforddus gydag iaith Roeg, Ffrangeg, Eidaleg a hefyd yr Almaeneg.

Yn *Y Goleuad* Rhagfyr 26, 1889, o dan y pennawd 'ARFON' – Cyfarfod Misol', 'Penderfynodd y cyfarfod anfon llythyr o gydymdeimlad at Mrs Williams, gweddw y diweddar Barch. H. H. Williams, M.A., Melbourne, Bethesda gynt, yr hon sydd newydd gyrraedd y wlad hon, yn ei galar am ei diweddar annwyl briod. Ac hefyd at ei dad Mr H. Williams, Ogwen Terrace, Bethesda'.

Roedd Hugh H. Williams yn hysbysebu yn *Y Genedl Gymreig* Hydref 1893 yn cynnig lle i gryddion am waith cyson trwy anfon llythyr iddo yn 11 Ogwen Terrace.

Mae hanes marwolaeth Hugh H. Williams yn ymddangos yn *Y Cymro*, Awst 22, 1895: 'Yn Ogwen Terrace, Bethesda, bore Gwener diwethaf y cymerodd hyn le. Yr oedd Mr Williams yn gymeriad neilltuol yn yr ardal hon- yr oedd yn ddarllenwr dyfal, yn Rhyddfrydwr gonest, a Christion gloyw. Mab iddo ef ydoedd y Parch H. H. Williams, M.A., a fu farw flynyddoedd yn ôl yn Awstralia. Roedd Hugh H. Williams, yn 65 oed pan farwodd ar ôl salwch blin ag hir, fe'i gladdwyd yn eglwys Llanllechid.'

Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu ar y garreg fedd.

'Er Cof am Jane, merch Hugh a Margaret Williams, Carneddi; bu farw Rhag. 7, 1855, yn 1 flwydd a 2 fis oed. Hefyd y ddywededig Margaret Williams, a fu farw Mai 6, 1868 yn 36 mlwydd oed. Hefyd Ellin eu merch, a fu farw Ion'r 26, 1870, yn 6 mlwydd oed. Hefyd y dywededig Hugh H. Williams, yr hwn a fu farw Awst 16, 1895, yn 66 ml oed. Un darllengar hygar oedd, Diddig caredig ydoedd.'

Yn y *North Wales Express* dyddiedig Hydref 11 yr un flwyddyn cawn adroddiad achos llys lle mae Benjamin Roberts, Bethesda yn cael ei gyhuddo o ddwyn pâr o esgidiau o siop Margaret Grace Williams, Ogwen Terrace, Bethesda. Fe blediodd Benjamin yn euog o'r drosedd gan ddweud ei fod wedi troseddu oherwydd tlodi. Roedd wedi bod yn byw ar un pryd y diwrnod ers mis sef te a bara sych. Cyn hyn roedd yn cadw siop dilledydd am 15 mlynedd a'i dad gyda'r un fywoliaeth am 40 mlynedd. Cafodd Benjamin ei gyhuddo o ddwyn esgidiau oddi wrth Margaret G. Williams, ar achlysur cynharach hefyd. Cafwyd ef yn euog a chosb o 10 swllt neu ei anfon i'r carchar am 14 diwrnod.

Erbyn cyfrifiad 1901 mae Margaret Grace wedi priodi gyda Lewis Edwards o Llansadwrn, Sir Fôn. Roedd o yn ei ddisgrifio ei hun fel masnachwr glo a ffermwr. Roedd Margaret yn dal i werthu esgidiau yn rhif 11 Ogwen Terrace, ac roedd ganddynt un mab o'r enw William a oedd yn 17 oed. Roedd morwyn gyda hwy hefyd o'r enw Sarah Jones, yn 69 oed. Roedd hi wedi bod yn gweini i'r teulu ers 1871.

Mae Lewis Edwards a'i fab yn byw yn 16 Pen y Graig erbyn cyfrifiad 1911. Mae Lewis yn cofnodi mai groser a masnachwr glo ydoedd, ac mae William ei fab yn dweud ei fod yn gynorthwydd yn y farchnad. Mae Lewis yn nodi hefyd ei fod yn briod ers 15 mlynedd. Roedd William yn 27 mlwydd oed ac yn fab i Lewis o'i briodas gyntaf. Nid oes sôn am Margaret, ei ail wraig, yn y cyfrifiad.

**Joseph McCarter** a'i wraig Letitia sydd yn byw yn 11 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1911. Roedd Joseph wedi ei eni yn Tyrone, Iwerddon yn y flwyddyn 1824, a Letitia yn Faughanvale, Londonderry yn 1833. Yn y cyfrifiad maent yn nodi eu bod wedi priodi ers 59 mlynedd. Mae Joseph yn nodi mai ei waith oedd '*water cap inspector*'. Ganwyd un ar ddeg o blant iddynt, a bu farw un plentyn.

Roedd Joseph a'i deulu yn byw yn Llanllyfni yng nghyfrifiad 1861, gyda phedwar o blant, Mary yn 7 oed, Sarah Jane yn 5, James yn 3, ac Grace yn 1 oed. Ganwyd James a Grace yn Llanllyfni. Porthor ar y rheilffordd oedd gwaith Joseph bryd hynny.

Erbyn cyfrifiad 1871 roedd y teulu wedi symud i fyw yn rhif 21 Hendre, Caernarfon, gyda Joseph yn gweithio fel labrwr. Roedd pedwar o blant ychwanegol wedi eu geni iddynt, Rose yn 9 oed, John yn 8, Ann yn 6, a Thomas yn 4 oed. Ganwyd John, Ann, a Thomas yn Llanbeblig.

Roedd y teulu wedi symud unwaith eto erbyn cyfrifiad 1881, ac yn byw ym Methesda. Mae Joseph yn nodi mae '*Gas Manager*' ydoedd, ac roeddynt yn byw yn y Gas Works. Roedd dau o blant ychwanegol wedi eu geni iddynt sef Letitia yn 10 oed a Joseph yn 6 oed.

Mae Joseph yn dal i weithio fel '*Gas Manager*' yn y flwyddyn 1891, ac maent yn byw yn y 'Gas House'. Roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi gadael cartref erbyn hyn. Dim ond Ann, Letitia a Joseph oedd gartref gyda'u rhieni. Roedd Letitia yn nodi mai athrawes ysgol oedd hi, a Joseph yn cynorthwyo fel groser. Mae'r teulu yn symud unwaith eto erbyn 1901, ac yn byw yn rhif 46 Stryd Fawr, Bethesda. Mae Joseph yn cael ei nodi fel arolygwr cynorthwyol yn y cyfrifiad. Roedd Letitia yn dal i fod yn athrawes a Joseph y mab yn groser yn gweithio iddo ei hun. Erbyn cyfrifiad 1911 mae Joseph y mab wedi priodi â Lydia Annie ac yn byw ym Mryn Meurig, Bethesda, gyda'i fam yng nghyfraith, Mary Jones. Roedd dau o blant ganddynt, sef John Elliot Cecil McCarter, ac Olive McCarter.

(i'w barhau - mis nesaf rhif 12 Rhes Ogwen)

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

## Eglwys Sant Cedol, Pentir

*Sêl Blanhigion*
Bydd Sêl Blanhigion yn cael ei chynnal yn Eglwys St. Cedol ar Ddydd Sadwrn yr 11 Fai rhwng 11yb a 2yh. Bydd amrywiaeth o blanhigion gardd a llysiau. Dewch yn llu i gael eich planhigion gardd y gwanwyn hwn.

*Diolchiadau*
Hoffem ddiolch i'n trysorydd James Frith am ei ymroddiad fel Trysorydd Eglwys St. Cedol am 42 o flynyddoedd. 'Roedd James yn Drysorydd yn Eglwys St. George, Rhiwlas ond pan gaewyd yr Eglwys yn Rhiwlas cymerodd y swydd o Drysorydd yn Eglwys St. Cedol. Mae James erbyn hyn wedi penderfynu ymddeol o'r swydd, fe fydd yn golled enfawr. Ond yn ffodus i ni mae Eirwen Williams wedi cymryd swydd y Trysorydd drosodd, pob lwc i ti Eirwen ac unwaith eto diolch yn fawr iawn James.

*Hamper Misol*
Rydym yn cynnal Raffl o Hamper Misol ar themâu gwahanol bob mis er mwyn codi arian i cynnal yr Eglwys, enillydd yr Hamper Mis Mawrth oedd Pamela Crocombe-Smith yn rhoddedig gan Nia. Hoffem ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn ei rhodd o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

*Te Bach*
Mae Eglwys St. Cedol yn ail ddechrau cynnal ei The Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch y prynhawn, bydd y Te Bach nesaf ar y 1af o Fai. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

*Gwasanaethau'r Sul*
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

*Manylion cyswllt*
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud ar eglwys cysylltwch â'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu gael sgwrs.

**Tafarn Y Faenol**
Mae perchennog yr adeilad wedi cyflwyno trydydd cais cynllunio i Gyngor Gwynedd ar gyfer troi'r dafarn yn llety gwyliau. Bu i dros 70 o bobl a sawl ci gyfarfod ar ddydd Sul 17eg Mawrth i ddangos eu gwrthwynebiad i'r datblygiad yma.

Mewn cyfarfod canlynol yn Eglwys Sant Cedol anerchwyd y cynulliad gan Yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd a gan ymgeisydd seneddol Plaid Cymru, Catrin Wager. Nodwyd nad oedd angen mwy o lety gwyliau yn yr ardal oherwydd bod tua 900 yn bodoli yn Arfon yn barod. Hefyd, roedd teimlad cryf bod modd ail agor y dafarn pe bai'r perchennog yn rhoi cyfle i'r gymuned wireddu eu gweledigaeth.

Diolchwyd i Cefin Roberts a Harry Hambleton am drefnu'r digwyddiad ac i aelodau Eglwys Sant Cedol am roi mynediad i'r adeilad.




# Teithiau cerdded am ddim yng Nghwm Idwal

Mae cyfres o deithiau cerdded yn cael eu cynnal yng Nghwm Idwal dros y misoedd nesaf sy'n cynnig cyfle i ddysgu mwy am hanes a chwedlau lleol wrth fwynhau byd natur.

Cynhaliwyd sesiwn cynta'r tymor ar 24 Mawrth, a oedd yn daith 'meddwlgarwch', gyda rhagor i'w cynnal ar 28 Gorffennaf, 18 Awst a 27 Hydref. Bydd y teithiau yma yn tywys cerddwyr o amgylch Llyn Idwal gan gymryd hoe o bryd i'w gilydd i wneud ymarferion 'meddwlgarwch' wrth fwynhau'r tirlun a natur yr ardal. Nid yw'r teithiau yma yn addas i blant o dan 18 ac ni ddylid dod a chŵn.

Ar ddydd Sul, 28 Ebrill, bydd Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal yn tywys criw ar daith o gwmpas y cwm, gan sylwi, dysgu a mwynhau'r natur o'u cwmpas.

Yna, ar 16 Mehefin fe fydd cyfle i fynd ar daith gerdded chwedlau gyda stori-wraig lleol a Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal yn eich tywys. Fe fydd y daith yn mynd o amgylch Llyn Idwal ac yn clywed hanes a chwedlau sy'n gysylltiedig gyda'r ardal.

Mae'r daith gerdded natur (28 Ebrill) a'r daith chwedlau (16 Mehefin) yn addas i oedolion a phlant dros 11 oed.

Bydd y teithiau i gyd yn dechrau am 9.30am o flaen Canolfan Cwm Idwal ond rhaid archebu lle o flaen llaw. I wneud hynny, cysylltwch gyda Rhys Wheldon-Roberts drwy e-bostio rhys.wheldonroberts@nationaltrust.org.uk neu ffoniwch 01248 605535 / 07977 596517.

Fel y gwyddoch, mae parcio'n gallu bod yn brin yn yr ardal, felly fe'ch anogir i ystyried defnyddio'r gwasanaethau bysiau sy'n teithio i'r cyfeiriad yna pan mae'n bosib. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.cwmidwal.cymru**



**Bydd cyfres o deithiau cerdded yn cael eu cynnal dros y misoedd nesaf**

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Pen-blwydd**
Dathlodd Robin Jones o'r Pentref ei ben-blwydd yn 100 oed ar yr 20fed o Fawrth. Cawsom barti yn Neuadd Talgae gyda'r pentrefwyr a ffrindiau. Roedd Robin wrth ei fodd yn ein canol. Cyflwynodd Rhian, ein dynes Bost Leol gerdyn iddo gan y Brenin. Hoffai ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd.



**Robin yn derbyn ei gerdyn gan Rhian**

**Cyngor Cymuned Llandygái**
Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 21ain o Fawrth yn y Ganolfan yn Nhregarth.

**Rhoddion Blynyddol**
Yn dilyn hysbysiad rhoddion y Cyngor, nodwyd fod llawer o fudiadau lleol wedi derbyn rhodd. Roedd rhaid blaenoriaethu'r ceisiadau gan fudiadau lleol oherwydd sefyllfa ariannol presennol y Cyngor. Dyma restr o'r mudiadau oedd yn llwyddiannus:

Clwb Criced a Bowlio – £100.00
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen – £100.00
Llais Ogwan – £250.00
Carnifal Bethesda – £100.00
Hwb Ogwen – £100.00
Cylch Meithrin Mynydd Llandegai – £100.00

**Seddi Gwag**
Adroddwyd fod dwy sedd wag ar y Cyngor Cymuned – un sedd Ward St Anns (Mynydd Llandegai) ac un sedd Ward Llandygai. Os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth – e-bost cyngorllandygai@ogwen.org neu 01248 602131.

**Gwasanaethau Bws / Arhosfan Llys y Gwynt**
Adroddwyd fod y Clerc wedi danfon llythyr at Bennaeth Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd, Dafydd Wyn Williams, i amlygu pryderon y Cyngor Cymuned am y diffyg gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn Llys y Gwynt, ac i ofyn am gyfarfod i drafod ymhellach. Nid oedd y Cyngor wedi derbyn ymateb erbyn y cyfarfod diwethaf.

Yn dilyn gohebiaeth arall, derbyniwyd ymateb gan Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran. Nodwyd fod y gwasanaeth 67 yn cael ei weithredu'n fasnachol gan Arriva yn ystod y dydd ar hyn o bryd, felly nid oes gan Gyngor Gwynedd reolaeth dros yr amserlen nac y trywydd. Aeth ymlaen i egluro fod cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo i liniaru effaith 20mya ar wasanaethau Arriva yn ardal Bangor, a dyma un o'r rhesymau mae Gerlan wedi cael ei dynnu oddi ar y trywydd. Mae'n annhebygol y byddai Arriva yn fodlon gweithredu heb newid sylweddol i'r amserlen. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad o'r rhwydwaith yn ardal Bangor, mae'n bosibl y bydd newidiadau. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd siom y Cyngor Cymuned gyda'r ymateb, ac anwybyddwyd y cynnig o gyfarfod i drafod ymhellach. Yn sgil hyn, penderfynwyd bydd y Clerc yn gofyn am gyfarfod gyda Sian Gwenllian AS ac i gynnwys y Cyng. Beca Roberts, gyda'r gobaith y byddent yn gallu trefnu cyfarfod efo Arriva/Cyngor Gwynedd.

Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar y 18fed o Ebrill am 18.30 yn rhithiol dros Zoom.

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

*Genedigaeth*
Mae'n bleser cael llongyfarch Yiannis a Kristia Douglas Pennant o Limassol Ynys Cyprus a Phenrhyn ar enedigaeth Richard Polo. Daeth y bychan i'r byd ar Fawrth 14eg. Mae Taid a Nain, sef Richard a Georgia Douglas Pennant a Hen Ewythr Edmond wedi gwirioni yn llwyr. Pob bendith arnynt fel teulu.

*Cant oed*
Canodd y clychau allan ar ddydd Mercher Mawrth 20fed fel anrheg o'r eglwys i ddathlu pen-blwydd arbennig Robin Jones o'r pentref yn 100 oed. Wel, Robin, llongyfarchiadau calonnog i chi. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r holl ddathliadau!

*Ffarwel i Bennaeth ysgol eglwys Llandygai.*
Ar Fawrth 21ain gwelsom ddiwedd ar gyfnod llwyddiannus Mr Elfed Morgan Morris fel Pennaeth Ysgol Llandygai. Arweiniodd Mr Morris yr ysgol yn gadarn drwy gyfnodau anodd Covid, drwy arolygiadau llwyddiannus ac adeiladodd sylfaen gref addysgol ac awyrgylch hapus iawn er mwyn i bob disgybl gael chwarae teg a modd i ffynnu. Diolch yn fawr iddo am ddatblygu'r cysylltiad clos efo'r eglwys. Bydd bwlch enfawr ar ei ôl. Cyhoeddir enw ei olynydd yn y rhifyn nesaf yn dilyn y broses o apwyntio.




**Elfed Morgan Morris, Pennaeth Ysgol Llandygai gyda'i gacen ffarwel ar ddiwedd ei wasanaeth olaf gyda'r plant.**

Cafodd Mr Morris wasanaeth olaf yn yr ysgol pan ddaeth yr holl ysgol ynghyd, yn blant, athrawon, staff ategol a chorff llywodraethol, i dalu teyrnged emosiynol i'n pennaeth poblogaidd. Pob hwyl yn eich swydd newydd ar Ynys Môn, Elfed, ond peidiwch â bod yn ddiethr!

*Tŵr yr Eglwys a Chynlluniau Atgyweirio*
Fel y soniwyd ato yn rhifyn Mawrth o'r Llais cyrhaeddodd adroddiad pensaernïol cyn y Pasg yn egluro ystod y gwaith a'r gost arfaethedig o gam nesaf yr atgyweirio. Daeth awdur yr adroddiad, y pensaer Andrew Kepzcyk i drafod y canlyniadau cyn symud ymlaen i gyd-gynllunio'r cam nesaf. Yn anffodus, mae tŵr yr eglwys wedi dioddef difrod sylweddol yn ystod y cyfnod hir o dywydd gwlyb. Mae dŵr yn tasgu o'r ffenestri a thrwy'r waliau dan redeg i lawr y siambr ganu clychau, drwy'r llawr ac i mewn i'r adeilad gan wlychu a disodli mwy o blastar. Bydd rhaid symud ar frys i drwsio rhywfaint o ffynhonnell y gwlybaniaeth - yn llythrennol ac yn drosiadol.

Bydd cyfle i ymweld â'r Eglwys o Basg ymlaen, pan fydd yr adeilad ar agor yn ddyddiol. Mae Eglwys St Tegai yn rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwys Agored" ers 2004. Dewch draw!

*Gwaeledd*
Gyrrwn ein dymuniadau am wellhad buan i Jan Roberts. Dychrynwyd y gynulleidfa wrth ddeall fod Jan wedi bod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth brys. Er ei bod yn gwella yn raddol ac eisoes yn ôl yn y gwasanaethau mae ei iechyd dal yn fregus. Felly, cymerwch bwyll, Jan!

***Gwasanaethau***
*Ar y Sul*
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth pob eglwys.

*Ar Ddydd Mercher*
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

*Manylion Cyswllt*
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Y diweddaraf gan Bartneriaeth Ogwen

**Trafnidiaeth Gymunedol**
Gyda phrosiect y Dyffryn Caredig a noddir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol bellach yn ei chweched mis mae cryn dipyn o brysurdeb wedi bod gyda'r cerbydau a'r beiciau dros y mis diwethaf.

Mae'r bws mini wedi bod yn rhedeg yn rheolaidd ar fore Llun i Ffordd Caernarfon, Bangor ar gyfer mynd a thrigolion i'r siopa mawrion. "Mae'n handi ar y naw cael fy nghasglu o'r tŷ, mynd i'r siopa dwi isho ac wedyn Colin yn fy ngollwng adra," medd un o'r defnyddwyr.

Mae sawl taith bleser wedi'u cynnal hefyd a rheini wedi bod i amrywiol leoliadau - Llandudno wedi profi'n boblogaidd iawn a'r bws drydan wedi bod cyn belled â Tweedmill yn Sir Ddinbych. Cyfle i bobl gael mynd i rywle gwahanol ar benwythnos - gwyliwch am fanylion ein teithiau nesaf ar bosteri o gwmpas y pentref ac ar y cyfryngau cymdeithasol.



Rhai o wirfoddolwyr Cymdeithas Eryri fu'n defnyddio'r bws trydan

**Cludiant ar gyfer grwpiau a chymdeithasau**
Gydag ymwybyddiaeth am y gwasanaethau cludiant yn cynyddu, mae'r Dyffryn Caredig wedi bod yn brysur yn cludo unigolion a chymdeithasau i amrywiol ddigwyddiadau.

Y diweddaraf i fanteisio ar y gwasanaeth amgylcheddol gyfeillgar oedd Cymdeithas Eryri. Mae'r elusen yn gwneud gwaith amgylcheddol ar hyd a lled yr ardal, ac ar gyfer eu gwaith diweddaraf ger Llanuwchllyn penderfynwyd defnyddio bws trydan Partneriaeth Ogwen.

Casglwyd y gwirfoddolwyr cyntaf ym Mangor, yna un ym Methesda a chwpwl arall ger y Bala i'w cludo ar gyfer gwaith plannu coed. Tra 'roedd y gwaith yn mynd ymlaen gwifrwyd y bws yn y Bala.

"'Roedd cael defnyddio bws trydan y Bartneriaeth yn brofiad arbennig," meddai Cai Bishop-Guest o Gymdeithas Eryri.

"Fel Cymdeithas ryda ni'n ymwybodol iawn o'n heffaith ar yr amgylchedd ac mae cael defnydd o fws heb allyriadau yn berffaith ar gyfer ein gwaith gyda gwirfoddolwyr. Ryda ni'n ddiolchgar iawn i'r Bartneriaeth am y cyfle i gydweithio."

**Beics Ogwen - sesiynau beics hygyrch**
Dros wyliau'r Pasg ail-ddechreuwyd ar y sesiynau beics hygyrch gyda chefnogaeth Cwmni Byw'n Iach a Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd dwy sesiwn yng Nghlwb Rygbi Bethesda er mwyn rhoi cyfle i unigolion a theuluoedd brofi'r gwahanol fath o feiciau sydd ar gael – rhai ochr yn ochr, beiciau tair olwyn a beiciau trydan.

Meddai Sue Plows o'r Gerlan: "Doeddwn i heb reidio beic ers 15 mlynedd. 'Roedd cael y cyfle i drio beic trydan gyda chefnogaeth Kyle yn wych. Fe reidiais ar hyd y Lôn Las gyn belled â Thregarth a roeddwn i wrth fy modd!


Mae sesiynau beics hygyrch wedi ail-gychwyn

Fyddai'n sicr o'u defnyddio eto."

Ychwanegodd Glyn Roberts o Fethesda: "Fe brynais feic trydan ar ôl ymddeol ac mae wedi bod yn ardderchog i mi. Dwi'n gallu mynd am ddiwrnod cyfan. 'Does dim trafferth efo gelltydd, ond dwi'n cael ymarfer corff hefyd gan fod angen pedlo'r beic i gael hwb gan y trydan. Faswn i'n cynghori unrhyw un lleol i fynd draw at griw Beics Ogwen i gael trei bach." Am ragor o fanylion: Beics@ogwen.org / 07394906036

**Gŵyl Hinsawdd**
Ar ôl llwyddiant Gŵyl Hinsawdd a drefnwyd ar y cyd gyda GwyrddNi ym Methesda'r llynedd, mi fydd criw o wirfoddolwyr yn cynnal y digwyddiad eto eleni, y tro yma yng Nghanolfan Tregarth.

Ar y 6ed o Fai rhwng 11 a 4, bydd cyfle i ddysgu am yr argyfwng hinsawdd a'r datrysiadau lleol posib gyda gweithdai, gemau a sgyrsiau.

Hwyl i'r teulu i gyd a digon o gyfle i gymdeithasu. Croeso i bawb. Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw help ar y diwrnod. Cysylltwch gyda chris@ogwen.org ar e-bost os am ragor o wybodaeth.

**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# CHWILAIR



## ENWAU POBL GYDA CHYSYLLTIAD Â DYFFRYN OGWEN

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L; | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | N | V | A | E | N | Y | L | M | E | S | E | J | H | E | I | M | G |
| D | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | V | D | A | O | D | D | N | A | P |
| A | J | A | U | Q | U | S | O | F | R | P | W | Y | Q | H | Z | G | R | H | C |
| F | S | O | U | M | D | W | N | O | Y | A | R | I | A | N | S | Z | R | U | T |
| Y | F | T | H | S | D | R | X | U | R | P | W | R | H | O | C | Q | W | H | W |
| D | S | E | R | N | I | H | A | D | O | Y | E | E | G | G | E | O | I | M | H |
| D | E | T | P | E | E | R | O | H | T | T | C | B | B | W | C | U | L | U | J |
| O | P | L | R | T | B | L | R | M | C | I | V | V | D | E | C | B | L | B | F |
| R | R | F | O | E | I | O | W | O | G | I | J | V | I | N | I | R | I | R | X |
| W | I | M | H | V | B | **S** | R | Y | M | T | R | T | O | S | K | O | A | P | W |
| I | R | C | E | M | K | O | **M** | Y | N | S | C | P | B | O | R | C | M | X | V |
| G | R | R | Y | H | S | T | R | **A** | W | H | O | M | G | R | E | F | S | Y | J |
| D | Z | H | B | C | W | O | S | T | **I** | N | U | M | C | O | R | A | P | I | X |
| N | I | L | X | J | J | M | B | W | S | **L** | O | G | O | T | D | E | A | X | M |
| D | X | K | F | U | P | C | Q | Y | O | E | **L** | R | H | H | I | A | R | L | F |
| E | R | Z | Q | R | O | C | T | D | G | W | N | **I** | O | E | T | S | R | L | Z |
| E | S | A | M | O | H | T | Y | N | N | E | J | R | **W** | G | S | B | Y | A | E |
| A | J | K | J | C | L | N | L | R | V | O | G | J | E | **O** | P | W | P | G | C |
| S | O | W | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | **J** | G | H | S | L |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg PERSON GYDA CHYSYLLTIAD Â DYFFRYN OGWEN . Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 26 Ebrill. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.**

Mae fy niolch y mis yma i Alan Davies, Porthaethwy, am awgrymu'r testun.

Ymddiheuriadau am y llithriad gyda sillafu Bysys Bach y Wlad, a Hwiangerddi, yn y Chwilair mis diwethaf. Bron yn dri o'r gloch y bore arnaf yn ei osod ac wedi blino yn ofnadwy. (celwydd noeth)

**Dyma atebion Chwilair Mawrth:-** Aberdaron; Bysys Bach y Wlad; Ddoi Di Gyda Mi; Doedd Dim Ar ôl; Hwiangerddi; Llanc Ifanc o Lyn; Ofer Chwilio; Pentra Bach Llanber; Safwn yn y Bwlch; Tylluanod; Y Gwanwyn.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Tregarth; Dorris Shaw, Bethesda; Wendy Eccles, Llanllechid; Carys Parry, Caerhun; Olive Williams, Maes y Garnedd; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; M. Jones, Llanllechid; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Tregarth; Eirwen Owen, Erw Las; Nel Glyn Roberts, Tregarth; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Huw Williams, Erw Las.

**Enillydd Mawrth oedd:-** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda.

**gafodd yr atebion cywir:-** Judith Hughes, Llangoed; Elizabeth Buckley,

# Natur o'n Cwmpas

# Enwau Creaduriaid yn ein Henwau Lleoedd (Rhan 1)

Mae'r wybodaeth sydd yn enwau lleoedd ein mynydd-dir yn rhoi inni gip ar hanes yr amgylchedd naturiol a'r gymdeithas gynnar. Ystyriwn, er enghraifft, yr enwau lleoedd sy'n cynnwys enwau creaduriaid gwyllt a dof.

Cymerwn y merlod mynydd. Mae gennym Gwm Caseg a Ffynnon Gaseg yng nghesail Carnedd Llywelyn, ac Afon Gaseg, efo Afon Bolas (eboles) yn ymuno â hi – y fach yn rhedeg at y fawr. Yna Pant y March uwchlaw Ffynnon Gaseg ar ochr Carnedd Llywelyn. Heb fod ymhell, rhwng y Mynydd Du a Charnedd Dafydd, mae Foel Meirch, a rhwng Trwsgl a Gyrn Wigau mae Bwlch Tros y Ceffyl ('traws': hen air am gyfeiriad neu ardal). Uwchlaw Nant y Benglog cawn Gwm y Gaseg Fraith a Llyn y Gaseg Fraith, ac ar lan Llyn Ogwen mae craig o'r enw Llech Meirch. Uwchlaw Nant Ffrancon, rhwng y Foel Goch a'r Garn, mae Bwlch y Cywion, Cwm Cywion, Ffynnon Gywion ac Afon Gywion (cyfeiriad, o bosib, at ebolion; tybed ai 'cnywion' oedd y gwreiddiol, sef hen air am ebolion?).


Llyn y Gaseg Fraith uwchlaw Nant y Benglog

Ceir nifer o enwau'n cyfeirio at y ceirw a'r cŵn hela, ac yn rhoi inni gip ar gyfnod pan oedd hela'r carw yn arferiad pwysig. Yn yr hen ddyddiau, byddai'r hyddgi a'r milgi yn cael eu defnyddio i hela ceirw. Mae Llyn y Cŵn a Rhos Llyn y Cŵn uwchlaw Cwm Idwal, rhwng y Garn a'r Glyder Fawr. Tybed ai yn y llyn hwn yr oedd yr helgwn yn torri syched wedi'r helfa, ac mai dyna sut y cafodd ei enw? Mae Carnedd y Filiast rhwng y Fronllwyd a Mynydd Perfedd; Pen yr Helgi Du uwchlaw Ffynnon Llugwy; a Gwâl y Ci Du ar Foelyci, ond cofier mai Moel Leucu yw Moelyci ac nid Moel-y-ci.

Ar un adeg roedd tri math o garw ar y llethrau hyn – y carw coch, yr iwrch ynghyd â'r danas, sef y carw brych – ac mae Llwybr y Carw yng Nghwm Idwal. Yn nheulu'r carw, y gwrw yw hydd, y fanw yw ewig, a'r epil yw elain, ac mae gennym Berth yr Ewig ym mhen Llyn Ogwen; Pyllau'r Ewigod uwchlaw Nant y Benglog; a Moel yr Elain, sef enw gwreiddiol yr Elan. Pan oedd Thomas Pennant yn crwydro Eryri yn y 18g er mwyn ysgrifennu *The Journey to Snowdon*, a ddaeth yn ail gyfrol yn ei gyfres *A Tour in Wales*, ymwelodd â'n hardal ni a gwneud cofnod o enwau rhai o'r mynyddoedd. Efo fo ar y daith i'w gynorthwyo'n ieithyddol roedd y Parch. John Lloyd, i roi gwybod iddo beth yn union oedd ymatebion y Cymry lleol i'r ymholiadau. Holi'r ffermwyr mynydd a bugeiliaid oedd o am yr enwau, wrth reswm, a chafodd ganddynt yr enw Moel yr Elain – mynydd noeth y carw ifanc.

Onid oes yna gyfoeth yn ein henwau lleoedd? Cyfoeth na ddylid ei golli. Maent yn rhan o'n hetifeddiaeth fel cenedl a rhaid eu gwarchod rhag cael eu disodli gan enwau Saesneg.

Y tro nesaf, yn yr ail ran, bydd sôn am enwau lleoedd sy'n cynnwys enwau creaduriaid eraill.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


L. STURRS A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com


Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Marchnad Ogwen
Mai 11eg
Mehefin 8fed
9.30am - 1pm
Neuadd Ogwen
Bwydydd, Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

# CROESAIR




**AR DRAWS**

7 Cig a llysiau mewn crwst, fel yng Nghernyw (6)
8 Nid gŵr y gath yw'r unig un i ganu allan o diwn (6)
9 Saif yn ddryslyd ar y gwaelod (4)
11 Hyd bywyd (3)
12 Cyfrif o filiwn (4)
15 Nid yw gwylanod a'u cecru yn creu y mwyaf persain (5)
17 Dilyn y drefn yn hollol gywir a safonol (7)
19 " - - - - - - - Tân " – record hir enwog Cwmni Sain o 1973 (7)
21 Perlysiau (5)
24 Bod yn berchen ar (4)
27 Sŵn undonog ofnadwy medd y rhai sydd ar y blaen (3)
28 Bod yn gynnar i eisteddfod fawr Awst 2023, efallai (4)
30 Cariad at wobr yn 28 Ar Draws (6)
31 Rhaid prysuro i fod ar lwybr y sioe (6)

**I LAWR**

1 Un cas yn ymofyn (4)
2 Dod yn nes im cyfarfod (4)
3 Llafn dryll (5)
4 Yn union fel 2 I Lawr (6)
5 Cynnes o gyfeiriad y de (4)
6 Cyfnod a gaed i fod yn drefnus (4)
9 Rhuthrodd o Gymru i Lerpwl i sgorio'r holl goliau (3)
10 Arweinydd gorsedd 28 Ar Draws (2,5)
13 Cael eiddo mewn ewyllys (7)
14 Yn fam lawer gwaith (3)
16 Mae yn feudwy, a dyma'i frecwast (3)
17 Mae'n atgoffa un am Daniel a'r llewod (3)
18 Ar - - - wyllt, ymbwylla ! (3)
19 - - - Tatws Oer, ffrind Wil Cwac Cwac (3)
20 Mesur yn gywir faint aeth heibio wedi dechrau awr (6)
22 Fel twrw stormus o'r ynys (3)
23 Edrych ar ôl cant, a'u disgyblu i gael trefn (5)
25 Ŵyr Abraham (4)
26 Undeb athrawon (1,1,1,1)
28 Hanfod bywyd heb y gyntaf (4)
29 Ychwanegu i wneud yn fwy (4)


**SIOP OGWEN**

**yn cynnig gwasanaeth**

**CLIC A CHASGLU**


Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn

**07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**




Atebion erbyn 3ydd Mai 2024 fan bellaf
**(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)**
i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**ATEBION CROESAIR MAWRTH 2024**

**AR DRAWS** 1 Set, 3 Copa, 7 Clodfori, 8 Sgan, 9 Derbyniadau, 11 Dyfalu, 13 Gweddol, 14 Cydraddoldeb, 17 Trech, 19 Gwybedyn, 20 Moli, 21 Offa

**I LAWR** 1 Salad, 2 Tuduriaid, 3 Cas, 4 Pladuro, 5 Botymu, 6 Pili, 10 Dweud Helo, 12 Yn Cario, 13 Gronyn, 15 A'r Go', 16 Bwyta,18 Chwi

Dim ond dau wall y tro yma, sef 'gromil' (13 I Lawr) yn lle 'gronyn', a 'gwibedyn' (19 Ar Draws) yn hytrach na 'gwybedyn'. Dyma'r rhai anfonodd atebion cywir: Dilys Wyn Griffith, Abergele; Barbara Jones, Talybont; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Huw a Gwenno, Gerlan; M.A.Jones, Wendy Eccles, Llanllechid; Stella Dafis, Rachub; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog; Elizabeth Buckley, Gareth Oliver, Rosemary Williams, Tregarth; Gill King, Mynydd Llandygai; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Margaret Williams, Bethesda; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Iona Williams, Llanddulas

Llongyfarchiadau i Stella Dafis, 1 Yr Hen Ysgol, Rachub, Bangor, Gwynedd LL57 3EJ am fod y cyntaf allan o'r het i ennill y wobr a'r clod y mis yma. Da iawn chi.



# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



### Côr o Iwerddon ym Methesda



**Offerynwyr Côr Corrib o Gaillimh yn perfformio yn y Clwb Rygbi**

Ar yr ail o Ebrill bu Côr Corrib o Gaillimh (Galway), Iwerddon yn cadw Noson Lawen yn y Clwb Rygbi gyda'r côr. Noson anffurfiol oedd hon a doedd dim tocynnau ar werth i'r digwyddiad ond mwynhaodd yr aelodau a gwragedd rhai aelodau gwmni hwyliog y Gwyddelod a'u canu gwerinol diddan. Noson arbennig o ddifyr a Chôr y Penrhyn yn cyfrannu ati.

Côr hwyliog efo rhaglen amrywiol ac yn gallu canu 'Myfanwy' mewn Cymraeg perffaith. Roedden nhw'n tystio eu bod wedi cael croeso twymgalon yng Nghymru.

### Carlow Iwerddon yn ystod y Pasg

Un fantais fawr o berthyn i gôr yw cael y cyfle i deithio a pherfformio mewn gwahanol leoedd. Yn ystod y blynyddoedd diweddara hyn a chyn cyfnod y clo bu aelodau Côr y Penrhyn yn ddigon ffodus i deithio i America, Norwy, Glastonbury a Llundain ymhlith lleoedd eraill nes adre, fel Blackpool a Llandudno.

Nawr, cyn bydd y rhifyn hwn o Lais Ogwan yn eich dwylo bu'r côr yn cystadlu yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Carlow rhyw awr o daith bws i'r de o Ddulyn yng Ngweriniaeth Iwerddon. Yn yr ŵyl roedd y côr yn canu mewn dwy gystadleuaeth, un yn ddigyfeiliant a'r llall gyda chyfeiliant. Canwyd 'Oleuni Bendigaid' a 'Pererin Wyf' yn y gystadleuaeth ddigyfeiliant ac yn y gystadleuaeth i gyfeiliant canwyd 'Mor Fawr Wyt ti' a 'Gwinllan a Roddwyd'.

Yn yr un ŵyl bu Hogia'r Bonc yn cystadlu mewn cystadleuaeth caneuon traddodiadol.

Bydd gennym adroddiad llawnach yn y rhifyn nesa am berfformiadau'r daith honno.

### Black Dyke yn dod yn ôl i Landudno

Bydd darllenwyr cyson y Llais a dilynwyr ffyddlon y côr yn cofio ymweliadau blaenorol y band pres enwog o Swydd Efrog â Venue Cymru i berfformio efo Côr y Penrhyn. Bu'r ymweliadau hynny'n llwyddiant ysgubol gyda theatr y Venue dan ei sang. Y newyddion da ydy bod y band enwog yn dod yn ôl i berfformio gyda'r côr eto. Dyma fand pres y dywedodd Elton John amdano ei fod y "band gorau yn y byd" ac y dywedodd Paul McCartney dyma'r "band gorau yn y wlad".

Y dyddiad i chi roi yn eich dyddiaduron ydy 13 Gorffennaf 2024. Bydd tocynnau i'r perfformiad ar gael gan aelodau'r côr ac yn swyddfa docynnau Venue Cymru yn fuan.



**Band Black Dyke ar y llwyfan**

# Paul ar Gabinet Gwynedd

Mae'r Cynghorydd Sir dros Rachub, Paul Rowlinson wedi ymuno gyda Chabinet Cyngor Gwynedd fel yr Aelod gyda chyfrifoldeb am faes Cyllid.

A hithau'n ddechrau blwyddyn ariannol newydd, bydd y Cynghorydd Paul Rowlinson – yr aelod lleol dros ward Rachub – yn cymryd yr awenau, ac yn arwain. Mae'n olygu'r Cynghorydd Ioan Thomas sydd wedi camu lawr o'r Cabinet ond sy'n parhau fel Cynghorydd Sir.

"Mae'n fraint cael fy mhenodi i'r Cabinet ac ymgymryd â'r maes allweddol hwn," meddai'r Cynghorydd Paul Rowlinson ar ei benodiad.

"Diolch i arweinyddiaeth fy rhagflaenydd a gwaith caled y swyddogion medrus yn yr Adran Gyllid, rydw i'n hyderus y gallwn barhau i wneud popeth posib i amddiffyn gwasanaethau lleol yma yng Ngwynedd er gwaetha'r sefyllfa ariannol argyfyngus sy'n ein hwynebu.

"Rydw i'n edrych ymlaen at fwrw iddi efo'r gwaith pwysig yma."

Dywedodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd: "Hoffwn groesawu'r Cynghorydd Paul Rowlinson i'r Cabinet. Mae'n gynghorydd brwdfrydig a chydwybodol sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth dros drigolion Gwynedd a dwi'n sicr y bydd yn gwneud cyfraniad pwysig fel aelod Cabinet.

"Bydd yn dod â thoreth o



brofiad a gwybodaeth i'r swydd allweddol hon ac yntau wedi bod yn aelod o Gyngor Gwynedd ers saith mlynedd, yn gadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi y Cyngor ac yn aelod o nifer o bwyllgorau a fforymau eraill o fewn a thu hwnt i'r Cyngor.

"Dymunaf y gorau iddo yn ei rôl newydd ac edrychaf ymlaen i weithio'n agos gydag o i'r dyfodol."

Llongyfarchiadau mawr i Paul, fe ŵyr nifer am ei ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus ers blynyddoedd lawer. Mae'n Gadeirydd Llywodraethwyr ysgol Dyffryn Ogwen ac yn Drysorydd Llais Ogwan, ynghyd a bod yn aelod o Gyngor Llyfrau Cymru, Mantell Gwynedd a Phwyllgor Rheoli Lôn Abaty.

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i famau newydd, Kim a Chrissie, Rhes Tabernacl ar enedigaeth Etta Emilia. Mae hi'n berffaith.

**Llongyfarchiadau!**
Llongyfarchiadau i Cian Iolen Rhys, 5, Garneddwen ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Eryri a gynhaliwyd ym Mhenygroes yn ddiweddar. Cafodd Cian gyntaf ar unawd dan 19 oed yn canu 'Twymyn y Môr'.

Pob lwc i Cian yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn 2024 a gynhelir eleni ym Meifod, Powys rhwng Mai 27ain a Mehefin 1af.

**Pen-blwydd Arbennig**
Penblwydd hapus i Maureen, Maes Coetmor, ar achlysur dathlu penblwydd arbennig yn ystod mis Mawrth.

**Gwobr**
Llongyfarchiadau mawr i Gethin Hulme, Erw Las ar dderbyn gwobr Prentis y Flwyddyn gyda'r Cwmni Airbus ym mis Mawrth. Da iawn ti Gethin ar dy anrhydedd.

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau i Rebecca, merch Gillian a Carl Walker, Glan Ogwen, ar ei dyweddïad â Tom, mab Meinir Owen, Llanfairpwll.

**Diolch**
Dymuna Margaret Llechid Roberts ddiolch i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a rhoddion ariannol tuag at Diabetes UK ar achlysur ei phen-blwydd yn 80. Diolch bawb.

**Ysbyty**
Cofion gorau am wellhad buan at y cyfeillion a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith:-

Rhiannon Hughes, Ffordd Sarnau; Eirian Williams, Maes y Garnedd; Dyfrig Owen, Stryd Fawr.

**Gair o Gydymdeimlad**
Eto yn ystod y mis a aeth heibio daeth profedigaeth i ran sawl teulu, ac anfonwn ein cydymdeimlad atynt i gyd:

Alan, Mared a'r teulu, Rhos y Nant. Collodd Alan ei dad, Gareth Jones yn Nhregarth.
Karen, Andrew, Catrin ac Iwan, Llain. Wedi colli mam a nain ym Mangor, sef Brenda Lloyd.
Marian Roberts, Glasnant Davies, Glanfor a Gwenda Davies a'r teulu, Falmai Davies a'r teulu. Wedi colli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr, sef Mr Cledwyn Davies, Cae Ifan Gymro.
Gwen a Thomas Griffiths a'r teulu, Ffordd Ffrydlas.

**Marw**
*Philip Erasmus Williams*
Ar 29 Chwefror, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Philip Erasmus Williams. Groeslon, Pen y Bryn, yn 94 mlwydd oed. Priod annwyl Beryl. Ni fu iechyd Philip yn dda ers sawl blwyddyn ond fe gafodd ofal arbennig gartref gan Beryl a chyfeillion. Cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Mawrth, 12 Mawrth, gyda gwasanaeth ar lan bedd y teulu ym mynwent Eglwys St. Cross, Talybont, dan arweiniad y Parchedig Sara Roberts. Cydymdeimlwn â chi, Beryl yn eich colled.

*Margaret Rees Williams*
Yn Ysbyty Gwynedd ar 12 Mawrth bu farw Margaret Rees Williams, Rhos y Coed. Priod y diweddar Arthur, mam a mam yng nghyfraith Dylan a Helen, nain Owain ac Elin, a hen nain Efa Gwen. Roedd yn chwaer i Maud, Ifan, a'r diweddar Gwilym. Bu'n athrawes yn Ysgol Glan Cegin, Bangor hyd ei hymddeoliad. Bu'n aelod selog yng Nghapel Llan (Peniel), ac yna yng Nghapel Jerusalem. Roedd hefyd yn aelod ffyddlon o Glwb yr Henoed, Rachub.

Bu ei hangladd ar ddydd Gwener, 22 Mawrth, yng Nghapel Jerusalem, gyda'r gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

**Clwb Gorffwysfan, Stryd Fawr**
Cynhaliwyd pwyllgor o'r Clwb fore Llyn, 4 Mawrth, gyda Rhiannon Efans yn y Gadair. Yn bresennol: O.J., Dilwyn, Edric, Dennis, Ann Fôn, Helen a Joe.

Cafwyd gair o groeso gan y cadeirydd ac fe ddymunodd wellhad i'r rhai oedd yn sâl, sef:- Christine Jones, Val Amos a Junior Dignam. Derbyniwyd adroddiad gan Helen, y Trysorydd.

Wedi trafodaeth, penderfynwyd ar y Gwibdeithiau canlynol ar gyfer 2024:-
24 Ebrill: Wyddgrug – Brychdyn (8.30yb)
26 Mehefin: Skipton – Boundary Mill (8.00yb)
7 Awst: Taith Ddirgel (9.45yb)
25 Medi: Caer (8.30yb)
4 Rhagfyr: Warrington (8.00yb)
Pob taliad (gydag enw) i'w roi i Joe o leiaf dau ddiwrnod cyn pob gwibdaith (ni dderbynnir arian ar y bws.) Aelodau: Blaendal o £3.00; Cyfeillion £15.00.

Penderfynwyd hefyd, cynnal dau fore coffi yn ystod y flwyddyn, sef ar ddydd Sadwrn, 27 Ebrill a dydd Sadwrn, 28 Medi. Y ddau i'w

## Yr Eglwys Unedig

*Profedigaeth*
Gyda thristwch y daethom i wybod am farwolaeth Mrs Margaret Rees Williams y mis diwethaf. Bu Mrs Rees Williams yn hynod o ffyddlon i weithgareddau'r Capel am flynyddoedd, hyd nes y daeth llesgedd i'w rhwystro rhag ymuno gyda ni yn ein hoedfaon. Cynhaliwyd ei hangladd yn y Capel ddydd Gwener, Mawrth 22, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teulu oll.

*Cofion*
Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion gorau at yr aelodau hynny sydd yn methu ymuno â'r oedfaon, beth bynnag y bo'r rheswm. Gobeithiwn y daw'r gwanwyn sydd ar droed â bendith i bob un ohonoch.



***Te Prynhawn***
Cynhaliwyd Te Prynhawn hynod o lwyddiannus – a blasus! - yn y Festri fach bnawn Gwener, Mawrth 8, wedi'i drefnu gan Alwenna a Carol. Gwnaethpwyd elw o £345.00. Diolch i bawb am bob cymorth.

*Blanced*
Mae Alwenna wedi bod wrthi'n brysur yn gwneud blanced arbennig ar gyfer ei gwerthu, a hyd yma mae hi wedi casglu £200.00 tuag at osod hysbysfwrdd newydd yng ngardd y Capel. Diolch yn fawr iddi.

*Dydd Gweddi Merched y Byd*
Gwnaethpwyd casgliad o £85.00 yn ystod y cyfarfod arbennig hwn – diolch am bob cyfraniad.

*Rhaghysbysiad*
Cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol eleni o Fai 12 hyd 18. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn nes ymlaen.

*Bore Coffi*
Cynhaliwyd Bore Coffi er budd trigolion Gaza fore Sadwrn, Mawrth 23, pryd y gwnaethpwyd elw o £600.00. Mae ein diolch yn fawr i'r gymuned am eu cyfraniadau, ac i'r rhai a fu'n trefnu'r cyfan.

cynnal yn festri Jerusalem o 10.00 tan 12.00.

Y Cyfarfod Blynyddol i'w gynnal ddechrau Gorffennaf a hefyd casglu'r Tâl Aelodaeth.

**Cyngor Cymuned Bethesda**

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Fercher, 27ain o Fawrth yng Nghanolfan Cefnfaes.

*Sedd Wag – Ward Rachub*

Yn dilyn hysbysiad, derbyniwyd un cais am y sedd wag. Yn dilyn pleidlais, cafodd Paul Rowlinson ei gyfethol i'r sedd wag.

*Toriadau Gwair Ychwanegol*

Yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn â thoriadau ychwanegol, derbyniwyd pris am y gwaith mewn sylw. Penderfynwyd derbyn y pris a nodwyd bydd y toriadau ychwanegol yn cael eu rhaglennu i gyd fynd a'r toriadau caeau chwarae o fis Ebrill i fis Medi.

*Cynrychiolydd ar Fwrdd Ynni Ogwen*

Yn dilyn pleidlais, penderfynwyd y bydd y Cyng. Einir Williams yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Fwrdd Ynni Ogwen.

*Cais am rodd - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen*

Yn dilyn trafodaeth a phleidlais, penderfynwyd rhoi rhodd o £500.00 tuag at yr achos.

*Aelodau Clwb Ieuenctid Bethesda*

Derbyniwyd llythyr gan blant ifanc y dyffryn yn gofyn a oes modd cael y clwb ieuenctid ar agor trwy'r flwyddyn. Penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol iawn o'r cais, a phenderfynwyd bydd y Clerc yn danfon y llythyr ymlaen at Gyngor Gwynedd gan nodi ein cefnogaeth. Hoffai'r aelodau ddiolch yn fawr iawn i'r plant ifanc am y llythyr arbennig.



Annwyl Cyngor Bethesda,

Gai ofyn yn glen iawn i chi adael ni fynd i clwb ieiengtydd bob dydd Llun a Mercher, trwyr flwyddyn ac mond stopio pam mae yno wyliau ysgol, dolig a rha. Does yna adim byd iw wneud yn Bethesda a hefyd mae o yn sbario ni fel plant fod ar y strydoed yn dywyll. Mae o yn rhoi profiadau da i ni fel plant ac wbath i ni wneud.

Felly dani yn golyn yn garedig os sgwelwch yn dda cawn defnyddio Cenfaes trw'r flwyddyn.

Diolch yn fawr

Iwan
Jennifer
Talia Elan, Twm Parry, Elsa Roberts, Tia, Mia Williams, Bella, Cara grace, Elis, Begw, Caitlin, Erinwyn, Oscar, Imogen, Lauren, Imogen W., Esmee, Margiad, Lloer Davis

Copi o'r llythyr gan aelodau'r Clwb Ieuenctid


*Glanhau'r Gofeb*

Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn cais gan aelod o'r cyhoedd i lanhau ac ail-beintio'r enwau ar y gofeb, penderfynwyd bydd y Clerc yn mynd ymlaen i gael prisiau am y gwaith.

*Problemau baw ci yng ngardd Capel Jerusalem*

Adroddwyd fod llanast baw ci wedi ei adael yng ngardd y Capel. Penderfynwyd bydd y Cyng. Einir Williams yn mynd yno i osod posteri ac i roi dosbarthwyr bagiau baw ci yno. Cofiwch fod bagiau baw ci ar gael yn swyddfa Dyffryn Caredig, 27 Stryd Fawr, yn rhad ac am ddim.


Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207


*Gwasanaethau*

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, cafwyd oedfaon grymus o dan ofal ein Gweinidog; Y Parchedig Ddr. Elwyn Richards; Y Parchedig Robert Capon; Mr. Richard Morris Jones, a'r Parchedig Anna Jane Evans. Y sefyllfa dorcalonnus yn Gaza oedd yn cael sylw Anna Jane, a daeth â chanfas mawr, ynghyd ag enwau rhai o'r plant a gafodd eu lladd yno, er mwyn i ni fel cynulleidfa ychwanegu'r enwau arno. Profiad emosiynol iawn oedd ysgrifennu enwau'r plant bychain yma ar y canfas, gan nodi eu hoedran - rhai heb fod yn flwydd oed hyd yn oed. Gweddïwn y daw heddwch i'r rhan yma o'r byd yn fuan iawn.

*Cyhoeddiadau'r Sul*

Ebrill 14: Y Parchedig Trefor Lewis (5)
Ebrill 21: Mrs. Eirlys Williams
Ebrill 28: Y Gweinidog
Mai 5: Mr. Donald Pritchard (5)
Mai 12: Undebol yn Llanrug (Cymun)
Mai 19: Y Gweinidog



## Eglwys Crist, Glanogwen

*Clwb Cant yr Apêl*
Enillwyr mis Mawrth:
£30 – 20 – Mrs E. Hughes, Ffordd Pant
Rhif 72 – Mrs Joan Williams, Llanrwst

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned; croeso cynnes i bawb.

*Rhybudd*
Mae blwyddyn y Clwb Cant yn dod i ben ddiwedd mis Medi, ac mae angen rhywun i'w drefnu a'i redeg os am ddal ati. Byddai'n drist iddo ddod i ben gan iddo ddod a rhai miloedd i gronfa'r Apêl dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Barbara ar 600530.

*Amlenni Rhodd*
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson dros y flwyddyn trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae sawl un wedi holi ynglŷn â thalu trwy Drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau. Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw 51-61-28 06306284. Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (Standing Order) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

Mae'r Gronfa Apêl yn dal ymlaen, ond mae angen trefnu gweithgareddau codi arian yn gyson. Byddai'n braf clywed am unrhyw rai sydd â diddordeb mewn trefnu rhywbeth i helpu'r achos, gan fod llawer mwy o waith atgyweirio i'w wneud, ond fawr o arian yn y coffrau. Mae'r safle GoFundMe hefyd yn dal ar gael ar gyfer unrhyw roddion. Diolch yn fawr

*Cofion*
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl. Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

*Gwasanaethau Eglwys Crist*
Pob Sul – Cymun Bendigaid am 11.00
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Croeso cynnes fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.

*Manylion cyswllt*
Gellir cysylltu â'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.
Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ac ar gael ar 07967652981.

# YSGOL TREGARTH



### Ymweliad â bwyty Fu's, Caernarfon

Fel rhan o'r thema 'Bwyd' cafodd dosbarth Idwal gyfle i ymweld â bwyty Fu's yng Nghaernarfon. Cafodd pawb gyfle i weld reis a saws 'sweet and sour' yn cael ei baratoi a'i goginio cyn cael cyfle i wneud spring rolls eu hunain. Yn dilyn hyn, cafodd pawb ginio blasus iawn a rhai yn cael ail blatiad! Roedd bwyta gan ddefnyddio'r chopsticks yn brofiad hefyd. Diolch yn fawr iawn i staff Fu's am y croeso cynnes, roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.



### Te prynhawn dosbarth Idwal

Mae'r dosbarth wedi bod yn mwynhau gweithgareddau yn seiliedig ar y stori 'Y teigr a ddaeth i de' ac yn awyddus iawn i gael te parti eu hunain. Bu llawer o baratoi cyn y diwrnod mawr, sef ysgrifennu rhestr siopa a chreu archeb fwyd ar-lein i Asda. Roedd gweld y bwyd yn cyrraedd yr ysgol yn y fan yn hwyl! Yna roedd rhaid creu gwahoddiad i'w roi i'r rhieni a pharatoi digon o fwyd i bawb fwyta. Bu'r plant yn canu i ddiddanu'r rhieni cyn mwynhau'r brechdanau, cacennau, creision a bisgedi.

### Athrawon cysylltiol o'r brifysgol

Rydym wedi ffarwelio gyda thair o athrawon cysylltiol o'r brifysgol ym Mangor yn ddiweddar, sef Sarah, Moli a Lois. Diolch yn fawr iawn i'r tair am eu gwaith yn ystod eu profiad ysgol a gobeithio fod y tair wedi mwynhau bod yma ar leoliad gyda ni yn Ysgol Tregarth. Pob hwyl i'r tair ohonoch yn y dyfodol.




### Diwrnod y llyfr

Er mwyn dathlu diwrnod y llyfr, gwisgodd plant yr ysgol fel eu hoff gymeriad o lyfr. Gwisgodd rhai fel plismon, Matilda, Willy Wonka a hyd yn oed y BFG! Roedd cyfleoedd yn ystod y dydd iddynt drafod eu hoff lyfr ac i wneud gweithgareddau hwyliog i ddathlu'r diwrnod.



**Diwrnod trwynau coch**
Y flwyddyn hon, penderfynodd y Cyngor Ysgol i gynnal sioe dalentau er mwyn codi arian tuag at elusen 'Comic Relief'. Bu'r plant yn perfformio llawer o dalentau gwahanol a oedd yn cynnwys canu, dawnsio, actio, sgiliau syrcas, sioe hud a lledrith, sgiliau pêl a dweud jôcs. Diolch yn fawr i'r plant am gyflwyno a beirniadu ac i weddill o blant yr ysgol am fod yn gynulleidfa wych. Llongyfarchiadau i Meia ac Elliw a ddaeth yn gyntaf wrth ddawnsio. Perfformiadau ac ymdrech arbennig gan bawb.

**Cyngerdd gŵyl Ddewi**
Roedd hi'n braf iawn cael croesawu rhieni, gwarchodwyr a chyfeillion yr ysgol yma atom i ddathlu dydd gŵyl Dewi ar Fawrth y 1af. Roedd y plant wedi paratoi amrywiaeth o eitemau a oedd yn cynnwys canu, llefaru a dawnsio gwerin. Cafodd pawb gyfle i gymdeithasu ar ddiwedd y cyngerdd gan fwynhau paned a bara brith.

**Gala Nofio**
Trefnodd ganolfan Byw'n Iach Bangor gala nofio ar gyfer dalgylch Bangor/Ogwen yn ystod mis Mawrth. Ar ôl gwersi nofio gyda'r ysgol a digon o ymarfer, roedd gan Ysgol Tregarth plentyn yn cynrychioli'r ysgol ym mhob ras am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Perfformiodd pob plentyn yn wych a chynrychioli'r ysgol yn arbennig ar y diwrnod. Llwyddodd y plant i ennill y gystadleuaeth ysgolion bach a dod yn drydydd allan o'r holl ysgolion oedd yn cymryd rhan, sy'n dipyn o gamp. Da iawn pawb

**GwyrddNi**
Eleni, mae dosbarth Ffrydlas yn cydweithio gyda phrosiect cymunedol GwyrddNi unwaith eto er mwyn meddwl am ddatrysiadau newid hinsawdd. Diolch yn fawr i Chris o GwyrddNi am ddod draw i'r Ysgol i drafod cynllun y prosiect ac i gasglu syniadau am Ŵyl Newid Hinsawdd sy'n cael ei gynnal yn Nhregarth ym mis Mai. Roedd plant y dosbarth wedi mwynhau rhannu eu syniadau a chlywed mwy am y prosiect. Edrychwn ymlaen at fwy o sesiynau GwyrddNi ar ôl gwyliau'r Pasg.

**Sylwebu gyda Bryn Tomos**
Cafwyd llawer o hwyl yn nosbarth Ffrydlas pan gawsom ymweliad gan Bryn Tomos o'r rhaglen Sgorio. Bu'r plant yn dysgu sut oedd sylwebu a chael cyfle i sylwebu ar gêm bêl-droed eu hunain. Braf oedd gweld brwdfrydedd holl blant y dosbarth wrth iddynt rannu eu gwybodaeth am bêl-droed a holi Bryn am ei brofiadau. Diolch yn fawr i Bryn am y sesiwn wirioneddol wych!

**Llwyddiant grŵp dawns 'Hudoliaeth'**
Llongyfarchiadau i Meia o ddosbarth Ffrydlas a ddaeth yn gyntaf fel rhan o grŵp dawns Hudoliaeth yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd. Bydd y criw yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Maldwyn ym mis Mai. Pob lwc fawr i ti Meia, rydym yn falch iawn o dy lwyddiant.



**Rhedwr bach y flwyddyn**
Llongyfarchiadau mawr i Owen o ddosbarth Ffrydlas a gafodd wobr 'Rhedwr bach y flwyddyn' yn ei glwb rhedeg 'Rhedwyr Eryri/Eryri Harriers'. Cafodd Owen ei ganmol am drio ei orau glas bob amser ac am fod yn ffrind da wrth annog eraill yn ei dîm. Rydym yn falch iawn ohonat Owen, dal ati!

# Ailgylchu'n y gweithle



Mae rheoliadau newydd wedi dod i rym trwy Gymru ers 6 Ebrill sy'n golygu fod rhaid i bob busnes, elusen a chorff cyhoeddus ddidoli eu gwastraff i'w ailgylchu fel mae cartrefi eisoes yn ei wneud.

Bwriad y newid ydi gwella ansawdd a maint yr ailgylchu ledled Cymru a sicrhau ein bod yn parhau i wella lefelau ailgylchu yn lleol a chenedlaethol.

Yn gryno, rhaid bellach gwahanu'r deunyddiau canlynol i'w casglu ar wahân:

- Papur a Chardfwrdd
- Caniau Metel, Plastigion a Chartonau (Tetra paks ayb)
- Poteli a jariau gwydr
- Gwastraff Bwyd
- Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach sydd heb eu gwerthu (sWEEE)
- Tecstiliau sydd heb eu gwerthu
- Gwastraff na ellir ei ailgylchu

Felly, os ydych chi'n rhedeg neu weithio mewn busnes, elusen neu gorff cyhoeddus, mae'n allweddol eich bod yn gwahanu'r eitemau ailgylchu a'i fod yn cael ei hel ar wahân gan bwy bynnag sy'n ei gasglu ar eich cyfer.

# Atgofion William John, Pant - Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen




**Rhieni Dafydd - Mary Margaret Roberts a William John Roberts, yn sefyll heb fod ymhell o Ysbyty'r Chwarel, lle roeddent yn byw ar y pryd. Delwedd o gasgliad papurau William John Roberts ar wefan Casgliad y Werin Cymru.**

Cafwyd sgwrs deilwng iawn i nodi Darlith Goffa Rhiannon Rowlands gan aelod sy'n gyfarwydd iawn i aelodau Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, sef y Trefnydd, Dr Dafydd Roberts.

Wrth gwrs, mae gan Dafydd wybodaeth hynod eang o hanes yr ardal a thu hwnt. Wedi graddio mewn Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth, aeth ymlaen i sicrhau Doethuriaeth ar hanes 'Cymunedau Chwareli Llechi Sir Gaernarfon a Meirionnydd, 1911-1939'.

Ymunodd â staff Amgueddfa Llechi Cymru yn Llanberis yn 1981, a bu'n arwain a chwarae rhan flaenllaw mewn sawl datblygiad cyffrous yna'n ystod ei gyfnod, cyn ymddeol fel Ceidwad yr Amgueddfa yn 2020.

Roedd ei ddarlith i'r Gymdeithas Hanes yn cyfuno ei ddiddordeb byw yn hanes y byd llechi gyda'r personol wrth iddo drafod atgofion ei Dad, William John Roberts, a fu, fel nifer o'i gyndeidiau yn gweithio yn Chwarel y Penrhyn.

Esboniwyd fod W. J. Roberts (neu William John, Pant i'w gyfoedion) wedi dechrau gweithio yn Chwarel y Penrhyn yn llanc 14 oed yn 1920. Dilynodd y broses arferol erbyn y cyfnod hwnnw ar gyfer hyfforddi a datblygu sgiliau hollti a naddu llechi to, a hefyd y sgiliau sy'n gysylltiedig â chreigio.

Erbyn tua 1930, roedd William John wedi ei benodi'n 'farciwr', a olygai ei fod yn aelod o'r tîm rheoli, ac felly'n cael cyfle pellach i ddeall trefniadau a chyfundrefnau'r chwarel. Ond yna gyda dyfodiad yr Ail Ryfel byd, ymunodd gyda'r Awyrlu yn 1939, a dychwelodd yn ddiogel i'w waith yn ôl yn y chwarel ar ddiwedd y rhyfel.

Esboniodd Dafydd fod gan y teulu gysylltiad hefyd gydag Ysbyty Brynllwyd a sefydlwyd ar gyfer trin gweithwyr Chwarel y Penrhyn. Yno bu Mam William John yn gweithio fel morwyn, ac yna flynyddoedd yn ddiweddarach wedi ei gyfnod yn yr Awyrlu, bu William John ei hun yn byw yn y fflat uwchben yr ysbyty wrth ddychwelyd i'w fywyd fel chwarelwr.

Erbyn hynny, roedd William John Roberts wedi cyfarfod a phriodi Mary (Mair) Margaret Jones, hithau yn ferch o Fethesda, ac yn athrawes hanes. Buont yn byw am gyfnod yn y fflat uwchlaw Ysbyty'r Chwarel.

Ac er symud i fyw o'r ardal yng nghanol y 1950au, doedd Dyffryn Ogwen a Chwarel y Penrhyn byth yn bell o'r meddwl.

Wedi ymddeol yn 1970, a symud i Dregarth, bu William John yn cofnodi ei atgofion a'i brofiad o'r Chwarel, a hefyd o fywyd cymdeithasol yn Nyffryn Ogwen. Yn wir, rhoddodd ddyfodiad *Llais Ogwan* gyfle i William John gyhoeddi rhywfaint o'i atgofion.

Eglurodd Dafydd ei fod wedi ymrwymo i gyhoeddi ysgrifau ei Dad, fel y gallai cynulleidfa ehangach elwa o wybodaeth a phrofiad chwarelwr balch, deallus, oedd yn deall ei gymdeithas a'i chwarel i'r dim.

Yr atgofion yma o fywyd yn ardal Dyffryn Ogwen oedd sail darlith Dr Dafydd Roberts ac mae'r llawysgrifau, sy'n cynnwys nifer o frasluniau i egluro'r testun i'w gweld ar wefan Casgliad y Werin:
**www.casgliadywerin.cymru**

# Gwaith cadwraeth Ysbyty Chwarel y Penrhyn



**Adeilad yr ysbyty**

Mae'n bosib eich bod wedi gweld fod gwaith cadwraeth yn digwydd ar adfeilion hen Ysbyty Brynllwyd, Chwarel y Penrhyn ar hyn o bryd.

Bu cyflwr digon truenus yr adeilad pwysig yma yn hanes a threftadaeth Bethesda yn destun tristwch ers peth amser. Felly mae'n dda gweld y gwaith cadwraeth yn digwydd ar adfeilion adeilad yr ysbyty, sy'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Daw'r gwaith i ddiogelu'r hyn sy'n weddill o'r strwythur a chlirio llystyfiant fel rhan o gynllun Llewyrch o'r Llechi, rhaglen Ffyniant Bro, a ariennir gan Lywodraeth y DU ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r contractwyr sy'n cyflawni'r gwaith yn cynnwys Donald Insall Associates, a chwmnïau lleol Underhill & Son Tree Surgery a Highlife Rope Access.

Mae mwy o hanes difyr adeilad yr ysbyty i'w weld ar wefan Hanes Dyffryn Ogwen www.hanesdyffrynogwen.wordpress.com, ac mae manylion am Safle Treftadaeth Byd ar gael ar www.llechi.cymru

# Gair neu ddau

John Pritchard

## Pen-blwydd y cythraul

Mae'r hen ymadrodd mor ddieithr i mi â'r dasg ei hun. Ond os sgwenna i bwt amdano, tybed fydd hi'n haws i mi roi cychwyn ar y gwaith?

Chlywais i neb yn sôn am 'ben-blwydd y cythraul'. Nid mod i wedi clywed neb yn sôn am 'ddiwrnod y glanhau mawr' na'r 'glanhad blynyddol' chwaith. Yn y geiriadur y gwelais i'r ymadroddion hyn. Yng Nghymraeg dyffryn Peris, sôn am 'y sbring clîn' fyddai pawb ers talwm. A hyd y gwn i, dyna maen nhw'n dal i'w ddweud.

O'r diwedd, ac er gwaethaf eira diwedd Mawrth, daeth y gwanwyn, ac roedd dydd Sul troi'r awr yn ddiwrnod heulog braf. Mor dda oedd gweld yr haul. Ond mor sydyn hefyd y datgelodd hwnnw'r llwch yn y tŷ 'ma. Cofiwch chi, mae'r Pharisead sydd ynof yn mynnu dweud fy mod wedi gweld gwaeth! Ond rhag i mi bechu'r un o ddarllenwyr *Llais Ogwan*, gwell brysio i ddweud nad yn y dyffryn acw y bu hynny.

Cymwynas fawr yr haul yw dangos y llwch sy'n llechu yn yr amlwg yn ogystal ag yn y dirgel. A'r sbring clîn sy'n mynd i'r afael â hwnnw. 'Goleuni yw Duw' (1 Ioan 1:5), a'i belydrau dwyfol sy'n dangos holl lwch a budreddi ein bywydau. Ac er i'r Pharisead sydd ynof unwaith eto wneud ei orau i ddadlau fod yna lawer gwaeth na mi, mae'r llwch a'r baw yn amlwg. Yng ngoleuni Duw, mae'n amhosibl i mi guddio fy meiau na gwadu i mi bechu yn ei erbyn. Ond mae'r un bennod o Lythyr Cyntaf Ioan yn ein cyfeirio at y glanhau mawr sy'n rhagori ar y sbring clîn mwyaf trylwyr: 'Y mae gwaed Iesu, ei Fab ef, yn ein glanhau ni o bob pechod ... Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder' (1 Ioan 1:7, 9). Rhyfeddod yr Efengyl yw'r addewid a roddir i bawb sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist eu bod wedi derbyn maddeuant ac yn cael eu cyfrif yn gyfiawn. Rhyfeddod gras Duw yw ein bod trwy ffydd yng Nghrist yn cael ein cyfrif yn berffaith lân.

Nid y sbring clîn fydd diwedd y glanhau. Bydd y gwaith mawr wedi ei wneud, ond chaiff y brwsh a'r dwster a'r hwfer ddim bod yn segur. Daw'r llwch yn ei ôl, a bydd angen sbring clîn arall ar y tŷ'n ddigon buan. Ond mae glanhad mawr Duw'n wahanol. Oes, mae angen cyffesu beiau a cheisio maddeuant bob dydd; ond mae'r glanhad trwy Iesu Grist yn derfynol. Mae angen ymroi o'r newydd i fyw yn ufudd i Dduw ac yn debyg i Iesu Grist; ond mae'r gwaith o gyfiawnhau'r pechadur sy'n ymddiried yng Nghrist wedi ei wneud un waith ac am byth.

Wedi'r sgwennu, ac er fy mod yn dal i bendroni ynglŷn ag ystyr yr ymadrodd, ymlaen â mi gobeithio at 'ben blwydd y cythraul'. Yn ôl *Geiriadur y Brifysgol*, hen ymadrodd a ddefnyddid ar lafar yma yn y Gogledd am sbring clîn ydi hwnnw. Ond o ble tarddodd yr ymadrodd? Mae'r *Geiriadur* yn nodi mai un ystyr posibl i'r gair 'cythraul' yw 'peiriant i chwalu a glanhau gwlân'. Tybed, felly, bod 'pen-blwydd y cythraul' yn awgrymu'r dydd o'r flwyddyn y defnyddid y peiriant hwnnw i lanhau'r gwlân, a bod yr ymadrodd wedi datblygu wedyn yn ddisgrifiad o ddydd blynyddol y sbring clîn? Dyna f'awgrym gorau i, beth bynnag. Rhowch wybod os gwyddoch yn wahanol.


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

sian.gwenllian@senedd.cymru

01286 672 076

70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus


# Nyth y Gân

## PAENTIAD O LONG MEWN STORM

Yn llun gwerth chweil i'r llenor, darganfod
Ar gynfas gwir drysor;
Er maint a chryfder y môr
Ei thynged oedd wrth angor.



## Y CEILIOG MWYALCH

Ni chafodd ef ei ddysgu
Na'i fagu chwaith i gân
Ond eto hynod fiwsig
A drig ar frigau mân.

O'r pedwar o'r tymhorau
Y gorau gennym ni
Yw pan fo'r dydd yn 'mestyn
A'r deryn yn ei fri.

Ail-ddeffro mae'n calonnau,
Ac yntau ddaw i'n gardd,
A'r noswaith gaiff ei llenwi
Gan li ei nodau hardd.

**Dafydd Morris**

## MYNYDDOEDD

Mae yno yn y mynydd
yr hawl i freuddwydio'n rhydd.
Ym mawredd y Carneddau
y gŵr a natur sy'n gwau;
yno'r lle i fwrw llid
o'n hoerni, gwres cadernid
ddaw'n gadwyn byddin gydwaed,
yno'n tras ac ôl eu traed.
Eu henwau yw ein hanes,
ni a nhw drwy'n hiaith yn nes
o hyd, ein gwrthglawdd ydynt;
ein caer warchodol fel cynt.
Her yw cnul trosiadau'r cnaf –
rheolwn y mur olaf.

**Richard Lloyd Jones**

(Cywydd buddugol Eisteddfod Cymdeithas Ceredigion eleni.)

# Chwaraeon

## GWYCH GENOD




Tîm buddugol yng nghystadleuaeth miTours ym Methesda

Roedd yna dimau ieuenctid o ledled y wlad yn heidio draw i Lys Dafydd yn ddiweddar, wrth i gaeau Clwb Rygbi Bethesda gynnal cystadleuaeth boblogaidd mi Tours.

Roedd yn gyfle gwych i dimau Bethesda o sawl oedran i chwarae yn erbyn timau o dde Cymru, a thu hwnt, a bu'n brofiad gwych i'r chwaraewyr.

Braf iawn oedd gweld fod tîm merched dan 14 Bethesda wedi perfformio'n wych, gyda Môr-Ladron dan 14 yn ennill y cwpan miTours. Llongyfarchiadau mawr i bob un o chwaraewyr Pesda ddaru chwarae yn anhygoel, gwych genod!!

## Clod i Dylan yng ngharfan Cymru

Mae Dylan Alford wedi sicrhau ei le yng ngharfan rygbi Cymru ar gyfer pencampwriaeth y Chwe Gwlad ar gyfer chwaraewyr dan 18 oed a gynhelir yn Parma yn Yr Eidal.

Llongyfarchiadau mawr iddo. Mae mwy o'i hanes a balchder trigolion ardal Rhiwlas ar dudalen 7.




Dylan Alford sydd wedi ei ddewis yng ngharfan Cymru dan 18 oed

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com